Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos, yn ystod 2020-21:

- fod gweithrediad swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn weddol gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ond gyda rhai newidiadau sylweddol a wnaed i waith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19; a
- bod y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun ar gyfer 2020-21 wedi eu cyflawni'n sylweddol.

Paratowyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd o fod yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen manylder cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cipolwg ar y flwyddyn

## Ebrill

Cyhoeddwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21, ond cadarnhaodd fod ein blaenoriaethau uniongyrchol wedi eu newid yn sylfaenol erbyn dechrau pandemig COVID-19.

Arwyddwyd i'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio y byddem yn mabwysiadu dulliau darparu eraill ac yn ailganolbwyntio llawer o'n gwaith.

## Mai

Nodwyd yr egwyddorion (hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno) a fyddai'n llywio ein dull o gefnogi lles ein staff trwy'r argyfwng.

Adroddwyd y gall cyrff cyhoeddus ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond bod yn rhaid iddynt wella'r ffordd y maent yn cymhwyso'r 'pum ffordd o weithio' os ydynt yn mynd i effeithio ar newid diwylliannol gwirioneddol.

## Mehefin

Penderfynwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £53 miliwn o gronfeydd datblygu gwledig heb wneud yn siŵr y byddai'r grantiau'n sicrhau gwerth am arian.

Gwnaed blog am ein Prosiect Gwersi'r COVID-19 a rhai themâu newydd o ran ailgyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir – y cyntaf mewn cyfres o flogiau ynghylch yr ymateb i'r pandemig.

## Gorffennaf

Amlinellwyd bod y sector cyhoeddus yn gwario hyd at £210 miliwn mewn ymateb i gysgu allan, yn hytrach nag atal cysgu allan.

Nodwyd saith thema allweddol y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth godi eu perfformiad i fynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

## Awst

Cyhoeddwyd ffeithlun newydd sy'n rhoi crynodeb syml a hygyrch o gyfrifon y GIG a'r agweddau allweddol ar y sicrwydd a roddwyd trwy ein gwaith archwilio.

Gwahoddwyd ceisiadau am ddwy uwch-swydd newydd – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid.

## Medi


Er gwaethaf yr heriau sylweddol o weithio o bell, cwblhawyd ein gwaith archwilio a darparwyd barnau ar fwyafrif y cyfrifon llywodraeth leol a llywodraeth ganolog 2019-20.

Nodwyd 10 Cyfle i Ailosod ac Ailgychwyn System Gofal wedi'i Gynllunio y GIG.

## Hydref

Darparwyd crynodeb o'r addasiadau a wnaed gennym i'n rhaglenni gwaith arfaethedig gwreiddiol mewn ymateb i sefyllfa COVID-19.

Adroddwyd bod ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol wedi datgelu £8 miliwn o dwyll a gordaliadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.





## Ionawr

Penderfynwyd bod cyrff y GIG wedi cynnal llywodraethu da i raddau helaeth trwy gydol argyfwng COVID-19, gyda threfniadau diwygiedig i'w galluogi nhw i lywodraethu mewn modd darbodus, hyblyg a thrylwyr.

Cwblhawyd ein rhaglen flynyddol o waith ardystio grantiau ac archwilio oddeutu £320 miliwn o gyllid Ewropeaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru.





## Tachwedd

Nodwyd sut yr oedd cynghorau wedi ymateb i'r her o ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau symud.


Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.



## Chwefror

Cyhoeddwyd ein bod yn cymryd rhan mewn cynllun prentisiaeth cyffrous newydd – Rhaglen Prentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan.


Lansiwyd cylchlythyr misol Archwilio Cymru yr ydym yn rhannu ein holl newyddion a'n hymchwil ddiweddaraf ynghylch sut y caiff arian cyhoeddus ei wario drwyddo.



## Rhagfyr

Rhannwyd â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd rai ffeithiau a ffigurau a chanfyddiadau cynnar a ddaeth i'r amlwg o'n hadolygiad ynghylch caffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19.

Gwahoddwyd cymunedau i rannu eu safbwyntiau ar ddyfodol canol trefi Cymru a pha mor dda y maent yn ymdopi ag effeithiau pandemig COVID-19.



## Mawrth

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar-lein wythnos o hyd lle buom yn myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf ac yn rhannu canfyddiadau ein prosiect gwersi pandemig COVID-19.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu wedi llwyddo i ddwyn ynghyd wahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn adeiladu system profi ac olrhain cysylltiadau yn gyflym ac o'r newydd gan mwyaf.

# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2020-21, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

### Golwg gyffredinol ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y materion a'r risgiau allweddol a wynebir gennym, a sut wnaethom ni berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9

Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud 13

Y materion a'r risgiau allweddol a wynebir gennym 16

Crynodeb o berfformiad a dangosyddion 18


### Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y cyflawnwyd yr uchelgeisiau a'r rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21.


Sylwadau ynghylch darparu ein rhaglenni gwaith 23

Y meysydd y pwysleisir arnynt 28

Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith 39

Ein defnydd o adnoddau 48


## Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol da.

### Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut y maent yn ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau.


Adroddiad y Cyfarwyddwyr 61

Datganiad o gyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu 63

Datganiad llywodraethu 64

### Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth a staff

Ein polisi taliadau cydnabyddiaeth, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth 85
Adroddiad staff 95

### Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

Ein crynodeb o alldro adnoddau, golwg gyffredinol o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 102
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd 107

## Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr 115
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 116
Datganiad Llifau Arian Parod 118
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr 119
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 120
Rhestr termau 139

## Atodiadau

Rhagor o fanylion am y rhaglenni gwaith a ddarparwyd gennym yn 2020-21.

1 Gwaith archwilio lleol 142
2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 143
3 Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol 146

# Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2020-21, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2021

01

# Golwg Gyffredinol

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

Roedd ein Cynllun Blynyddol yn nodi'r camau yr oeddem yn bwriadu eu cymryd yn 2020-21 tuag at gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol a'n hamcanion strategol. Fodd bynnag, yn fuan cyn ei gyhoeddi, daeth amgylchiadau eithriadol COVID-19 ar ein traws. Fel pawb, newidiwyd ein blaenoriaethau uniongyrchol yn sylfaenol wrth i ni ganolbwyntio ar les ein gweithwyr, a chynnal parhad busnes, a chefnogi'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

Dywedais yn gyflym wrth y cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio y byddem yn mabwysiadu dulliau cyflawni amgen ac yn ail-bwysleisio llawer o'n gwaith i sicrhau nad oedd yn ychwanegu at y pwysau yr oedd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu. Fodd bynnag, roeddwn i hefyd yn ymwybodol iawn bod gan Archwilio Cymru arbenigedd hanfodol i helpu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ymateb i rai o'r heriau yr oeddem yn eu hwynebu.

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn rhoi crynodeb o'r addasiadau a wnaethom i'r rhaglenni gwaith gwreiddiol a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol mewn ymateb i sefyllfa COVID-19, a'r cynnydd a wnaethom o ran cyflawni'r cynlluniau hynny a oedd wedi'u haddasu.

Mae ein gwaith archwilio cyfrifon yn hanfodol er mwyn rhoi asesiad annibynnol parhaus o reolaeth ariannol a chadernid y sector cyhoeddus i'r Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd ehangach. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni ein rhaglen waith lawn yn 2020-21.

Nid oedd cyflawni'r gwaith hwn heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom gynnal yr archwiliadau, ond hefyd o ran ystyried ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio o'r pandemig. Mae ein llwyddiant o ran parhau i ddarparu archwiliadau amserol ac o ansawdd da yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a'n swyddogion cyrff cyhoeddus i groesawu ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus sy'n codi.

Mae ein rhaglen astudiaethau cenedlaethol bob amser wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a materion sy'n newid sydd o bryder cyhoeddus neu seneddol. Nid yw'n syndod i ni arfer yr hyblygrwydd hwnnw dros y flwyddyn ddiwethaf yn fwy nag erioed o'r blaen.

O'r cychwyn cyntaf, buom yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Senedd i gefnogi ei waith craffu ei hun ar agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Gwnaethom hefyd ymgysylltu'n rheolaidd â'n cymheiriaid yn swyddfeydd archwilio eraill y DU i rannu'r hyn a ddysgwyd o ran ein hymatebion priodol i'r pandemig. Gwnaethom gyhoeddi rhai adroddiadau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr ymateb i COVID-19 ac effaith y pandemig, ac ail-lunio llawer o'n gwaith arfaethedig i'w leoli yn y cyd-destun hwn. Gwnaethom gyflawni cyfanswm o 22 o allbynnau adroddiad cenedlaethol yn llwyddiannus yn 2020-21; ffigur sy'n gyson â'r alldro a adroddwyd ar gyfer 2019-20.

Ar lefel leol, gwnaethom ail-lunio ein cynlluniau archwilio llywodraethu a gwerth am arian yn sylweddol mewn cyrff GIG a llywodraeth leol unigol i ganolbwyntio ar faterion mwyaf perthnasol i'r sefyllfa wrth iddi esblygu. Roedd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen o waith dysgu o COVID a diwygio cwmpas ein rhaglenni i roi mwy o sylw i faterion fel cynllunio adferiad.

Mae detholiad o astudiaethau achos wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn i roi mwy o ddealltwriaeth o rai o'r prosiectau yr ydym wedi bod yn ymwneud â nhw a'r cyfraniad y mae gwaith hwnnw wedi ei wneud. Rwyf yn ddiolchgar i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus drwy'r cyfnod heriol hwn.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Datganiad gan y Cadeirydd

Gweithiodd ein staff yn eithriadol o galed yn 2020-21 mewn amgylchedd cwbl wahanol a heriol.

Ein prif flaenoriaethau wrth redeg y busnes oedd addasu a lleihau cymaint â phosibl y tarfu ar ein gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol, gan sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn dros ein pobl, yn eu cadw'n ddiogel ac yn cefnogi eu lles. Trwy gydol y cyfnod, ein hegwyddor fu, ac mae'n parhau i fod, 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'.

Fel cyflogwr, gwnaethom barhau i fonitro'n ofalus y sefyllfa a oedd yn newid yn gyflym a gweithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Trwy gydol 2020-21, arhosodd pob un o'n swyddfeydd ar gau a chyflawnodd ein holl staff eu gwaith o bell o'u cartrefi.

Yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig fu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg o fewn ein timau a gyda'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio. Yn sgil ein strategaeth barhaus o fuddsoddi mewn TG, gan gynnwys gliniaduron hybrid newydd sy'n caniatáu i'n staff weithio'n effeithlon ac yn effeithiol o gartref, bu modd newid yn gymharol ddi-dor i weithio o bell.

Elfen hanfodol arall o'n hymateb oedd y defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o ddulliau o ymgysylltu â'n staff, gan roi sicrwydd iddynt, diweddariadau hanfodol ar y sefyllfa a oedd yn esblygu, a gwybodaeth am sut y gallant gael gafael ar adnoddau a chymorth. Casglwyd adborth rheolaidd hefyd ar eu profiadau er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Ein dull o weithredu drwyddi draw fu blaenoriaethu lles staff a derbyn bod y pandemig, yn anochel, wedi cael effaith ar ein capasiti cyffredinol wrth i gydweithwyr reoli cyfrifoldebau gofalu, gwarchod ac effeithiau uniongyrchol eraill y feirws. Er gwaethaf yr heriau hyn, gwnaethom berfformio'n eithriadol o dda, ac rwy'n hynod fodlon ar ein cyflawniadau ac yn falch ohonynt.

Rheolwyd risgiau strategol a chynllluniau parhad busnes yn dda, a gwnaethom gyrraedd llawer o'r targedau uchelgeisiol yr oeddem wedi'u gosod ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol. Rwy'n talu teyrnged i'n staff am eu holl waith caled a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn. Yn yr Adroddiad hwn rydym yn dathlu ein cyflawniadau, y mae llawer ohonynt, ond yn nodi rhai meysydd pwysig y mae angen i ni adlewyrchu arnynt a gwneud gwelliannau pellach.

Wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn parhau i flaenoriaethu cefnogaeth barhaus i iechyd a lles staff Archwilio Cymru wrth i ni symud o ddull 'ymateb' i ddull 'adfer' o ran pandemig COVID-19. Wrth lunio ein ffordd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol, byddwn yn adeiladu ar yr addasiadau a amlinellir yn yr Adroddiad hwn, er mwyn nodi a chadw rhai o'r newidiadau cadarnhaol a welsom yn ystod y pandemig.



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd,
Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

1 Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a gwariant cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae angen gwybodaeth sy'n ddiduedd, yn amserol, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir ar y cyhoedd a'i gynrychiolwyr.

2 Yr archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol).

3 Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio mwyafrif yr arian cyhoeddus a warir yng Nghymru, gan gynnwys y cyllid y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Senedd. Caiff elfennau sylweddol o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG ac i lywodraeth leol.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 270 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn cynnwys diagram sy'n dangos ein strwythur sefydliadol. Mae adran Adroddiad Cyfarwyddwyr yr Adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am aelodaeth ein Bwrdd a'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

## Yr hyn a wnawn

### Sicrhau



pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

### Egluro



sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl

### Ysbrydoli



a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon ac ymgymryd â gwaith archwilio perfformiad lleol mewn amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

6 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £21 biliwn o incwm a gwariant, sef dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru.

## Ein gwaith craidd

### Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**




Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

7 Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy’n rhoi rhagor o wybodaeth am:

a Sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru;

b ein huchelgeisiau tymor hwy;

c ein hamgylchedd gweithredu;

ch ein rhaglenni gwaith arfaethedig a’r meysydd cysylltiedig y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y 12 mis nesaf; a

d sut yr ydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

8 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy’n newid, a materion newydd sy’n peri pryder cyhoeddus neu seneddol.

# Y materion a'r risgiau allweddol a wynebir gennym

9 Fel y nodwyd gyntaf yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20, rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang ac, ar gyfer pob uchelgais, tri amcan strategol. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei gymryd tuag at gyrraedd ein llawn botensial o fod yn sbardun ar gyfer newid a gwelliant sydd wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

**Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw**

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

**Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo**

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

**Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol**

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

**Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt**

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

10 Mae ein Cynllun Blynyddol presennol yn disgrifio chwe phrif ffactor a fydd, yn ein barn ni, yn cael y dylanwad mwyaf dros y ffordd yr ydym yn darparu ein gwaith ac yn cyflawni ein huchelgeisiau yn ystod y blynyddoedd nesaf:

- a Effeithiau pandemig COVID-19.
- b Goblygiadau Brexit.
- c Argyfwng hinsawdd.
- ch Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- d Heriau economaidd-gymdeithasol.
- dd Cymdeithas â rhwydweithiau cynyddol.

11 Mae ein gwaith arfaethedig yn rhannu'n ddwy adran yn fras – darparu archwiliadau a chynnal y busnes. Ar gyfer pob adran, noda ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 feysydd i ganolbwyntio arnynt i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau a'n hamcanion strategol. Arweiniwyd y cynnydd ym mhob un o'r meysydd pwyslais hyn gan ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ac fe'i monitrwyd yn agos gan ein Bwrdd. Mae adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hwnnw.

12 Mae adran Datganiad Llywodraethu yr Adroddiad hwn yn rhoi cyfrif o'n gwaith rheoli risg yn 2020-21 ac yn disgrifio'r prif risgiau a'r ansicrwydd a wynebir gennym.

## Crynodeb o berfformiad a dangosyddion

13 Yn ystod 2020-21, roedd arfer ein swyddogaethau yn weddol gyson â’r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn, ond gwnaed rhai newidiadau sylweddol i’r gwaith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19.

14 Darparodd ein Hadroddiad Interim grynodeb o’r addasiadau a wnaethom i’r rhaglenni gwaith gwreiddiol a nodir yn ein Cynllun, mewn ymateb i sefyllfa COVID-19.

15 Mewn crynodeb:

a Ar ddechrau’r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, gwnaethom roi’r gorau i weithio ar y safleoedd mewn cyrff a archwilir a chau ein swyddfeydd ein hunain.

b Hyd at ddiwedd 2020-21, roedd yr holl staff yn gweithio gartref yn bennaf, wedi eu darparu â’r TG angenrheidiol a chymorth o amgylch offer swyddfa gartref.

c Roedd hyn yn golygu newid enfawr yn ein model gweithredol wrth inni ymgysylltu â’n cyrff archwiliedig a chyflawni ein gwaith o bell.

ch O ddechrau’r flwyddyn, buom yn gweithio’n gyflym gyda’n cyrff archwiliedig i sefydlu ffyrdd newydd o weithio er mwyn cyflawni ein hystod o waith archwilio, er enghraifft, drwy gael mynediad o bell i systemau ariannol neu ddatblygu trefniadau rhannu ffeiliau electronig. Er bod hyn yn cymryd mwy o amser yn gyffredinol, rydym wedi cyflawni ein harchwiliad statudol o ddyletswyddau cyfrifon ac wedi sefydlu arferion y byddwn yn elwa arnynt yn y dyfodol.

d Gwnaethom ail-lunio ein rhaglenni astudio gwerth am arian yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn cydnabod a chefnogi ymateb y sector cyhoeddus i’r pandemig. Roedd hyn yn golygu gohirio neu leihau gwaith blaenoriaeth is a cheisio osgoi effaith andwyol ar ymateb y rheng flaen i COVID-19 gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

dd Gwnaethom gyflwyno Prosiect Gwersi’r COVID-19 hefyd, gan ddefnyddio ein rhwydwaith o gysylltiadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn casglu enghreifftiau o arferion da newydd ac arloesol, gan ailchwarae’r rheini yn agos at amser real.

e Lles staff fu ein blaenoriaeth drwyddi draw, gan ganolbwyntio ar ddull ‘hunan, teulu, gwaith … yn y drefn honno’. Gwnaethom ddatblygu sianeli cyfathrebu’n sydyn er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn cadw mewn cyswllt, gwnaethom gynnal arolygon pwls rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan gydweithwyr lais, a gwnaethom newid ein darpariaeth dysgu a datblygu yn ddarpariaeth ar-lein. Rydym hefyd yn rhoi ystod eang o drefniadau cymorth eraill ar waith, gan gynnwys i gydweithwyr nad ydynt yn gallu gweithio i’w capasiti arferol am ba reswm bynnag.

16 Mae adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad hwn yn darparu:

a Sylwadau ynghylch darparu ein prif raglenni gwaith yn 2020-21.

b Manylion am y cynnydd a wnaethom tuag at gyflawni'r meysydd y pwysleisir arnynt a nodir yn ein Cynllun ar gyfer 2020-21.

c Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith, a'i effaith.

ch Rhywfaint o naratif lefel uchel ynghylch sut y gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau yn 2020-21, sy'n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

17 Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig. Yn gyffredinol, yn 2020-21, gwnaethom gyrraedd neu roeddem yn agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer 15 o'r 18 dangosydd. Bydd ein perfformiad o'i gymharu â'r tri dangosydd sy'n weddill yn rhywbeth y bydd ein gwaith gwella yn pwysleisio arno yn 2021-22.

## Sefyllfa diwedd y flwyddyn o ran cyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020-21

### Archwilio'r gwaith o gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnir erbyn y terfyn amser statudol gofynnol. | 100% | 98%[1] |
| 2 | Yn brydlon | Y gyfran o gynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig[2] ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% | 92% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol. | Aseswyd 100% o'r sampl fel rhai boddhaol neu uwch, a 90% fel da neu uwch[3] | 100% a 100% |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid[4] sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% | 96% |
| 5 | Darparu mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall. | O leiaf 80% | 89% |

● Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

1 Yn sgil ffactorau a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth gwnaeth dau brif archwiliad barhau ar ôl y terfyn amser statudol gofynnol.

2 Addaswyd ar gyfer y newidiadau sylweddol a wnaed i waith arfaethedig mewn ymateb i bandemig COVID-19.

3 Pan fo 'da' gyfwerth â chategori 2A o ansawdd archwilio y Cyngor Adrodd Ariannol, a 'boddhaol' yn cyfateb i gategori 2B.

4 Cynhaliwyd arolwg gennym o Aelodau'r Senedd ym mis Mawrth 2021, gan ofyn am eu safbwyntiau ynghylch gwerth ac effaith ein gwaith. Ymgysylltodd 19 Aelod â'n harolwg, gan ymateb iddo. Daw ein perfformiad o'i gymharu â dangosyddion 4 i 6 o ganlyniadau'r arolwg hwn.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **6** | Sbarduno gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 84% |
| **7** | Yr arbedion a nodwyd | Gwerth yr arbedion posibl a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | £42.2 million |
| **8** | Digwyddiadau arferion da | Cyfran y bobl a ddaeth i'n seminarau a'n gweminarau a ystyriodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | 100%[5] |
| **9** | Ymweliadau â'n gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 25,000 bob blwyddyn | 28,462[6] |
| **10** | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol, hy, ymgysylltu â'n negeseuon trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu. | 1,300 pob blwyddyn | 4,890 |
| **11** | Rhannu dysg am archwilio | Nifer yr achosion lle byddwn yn cyflwyno dysg am archwilio i weithgorau polisïau allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 pob blwyddyn | 60[7] |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny
- Angen gwelliant
- Angen gwelliant sylweddol

5 Dilëwyd yr holl seminarau dysgu wyneb yn wyneb a rennir a restrir yn ein Cynllun Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2020-21 yn unol â chyfyngiadau COVID-19. Yn lle hynny, gwnaethom gyflwyno rhaglen ddiwygiedig o weminarau a digwyddiadau ar-lein eraill yn ystod y flwyddyn; dywedodd 100% o'r rhai a ymatebodd fod y digwyddiadau'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

6 Yn ystod chwarter 3, bu camgymeriad technegol ar y system sy'n casglu'r data hyn, a arweiniodd at beidio â chofnodi pob ymweliad. O ganlyniad i hynny, mae'r ffigur gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn yn debygol o fod yn uwch na'r ffigur a nodir.

7 Mae hyn yn 60 o achosion o leiaf, ac nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys presenoldeb mewn grwpiau sy'n rhan o'n busnes arferol nac, er enghraifft, pan rydym wedi mynd i sawl digwyddiad mewn cysylltiad ag un pwnc, ac unwaith yn unig yr ydym wedi cyfrif digwyddiadau o'r fath.

## Cynnal dangosyddion perfformiad allweddol y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **12** | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgorau mynegrif ymgysylltu o arolwg blynyddol y staff sy'n gadarnhaol, mae'r arolwg wedi ei gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. | Mae'r 10% uchaf o leiaf yn sgorio ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | 70% |
| **13** | Profiad y cyflogeion | Canran sgorau profiad y cyflogeion sy'n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff[8]. | 25% o'r sgorau uchaf o leiaf ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | Mae 2 allan o 10 sgôr thema yn y 25% uchaf |
| **14** | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff bob flwyddyn. | Llai na chwe diwrnod | 6.1 diwrnod |
| **15** | Mantol ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% o'r gyllideb | 1.7% |
| **16** | Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.3 miliwn yn 2020-21 | £2.1 miliwn |
| **17** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan i'r hyn a gynhyrchir yn anuniongyrchol trwy ein gweithgareddau. | 290 tunnell yn 2020-21 | 96.4 tunnell |
| **18** | Y gyfradd lwyddiant ar gyfer hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo y tro cyntaf yn eu harholiadau ar y lefel Proffesiynol ac Uwch â Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 86% |

● Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

8 Themâu allweddol profiadau'r cyflogeion yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yw: amcanion a phwrpas y sefydliad; arweinyddiaeth a rheoli newid; diwylliant y sefydliad; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; a chyflogau a budd-daliadau.

# Dadansoddi perfformiad

## Sylwadau ynghylch darparu ein rhaglenni gwaith

### Gwaith archwilio lleol

18 Yn dilyn yr ymyriadau anochel i'n rhaglenni gwaith yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19, parhaodd gwaith archwilio ar safleoedd i gael ei atal trwy gydol 2020-21. Ond gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell â'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, yn bennaf trwy ddefnyddio technoleg a rhaglenni chyfathrebu ar ffurf fideo.

19 Mae ein harchwiliad o waith cyfrifon yn hanfodol er mwyn darparu asesiad annibynnol parhaus i'r Senedd, cyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach ynghylch rheolaeth ariannol a chadernid ar draws y sector cyhoeddus. Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni ein rhaglen waith lawn yn 2020-21, er i amserlen hwy.

20 Cwblhawyd ein holl archwiliadau o gyfrifon cyrff y GIG ar gyfer 2019-20 a darparwyd barnau dilynol gan yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 2 Gorffennaf. Cwblhawyd mwyafrif ein harchwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a llywodraeth ganolog ar gyfer 2019-20 erbyn diwedd mis Medi 2020. Cwblhawyd y gweddill erbyn diwedd mis Hydref, pan ddechreuodd y cylch archwilio cyfrifon nesaf (2020-21).

21 Nid oedd cyflawni'r gwaith hwn heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom ymgymryd â'r archwiliadau, ond hefyd o ran ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n o'r pandemig. Mae ein llwyddiant o ran parhau i ddarparu archwiliadau amserol ac o ansawdd da yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a'n swyddogion cyrff cyhoeddus i groesawu ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus sy'n codi.

22 Gwnaethom gwblhau hefyd ein gwaith ardystio grantiau ac archwilio oddeutu £320 miliwn o gyllid Ewropeaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru erbyn diwedd mis Ionawr 2021.

23 Yn 2020-21, gwnaethom ail-lunio ein cynlluniau archwilio llywodraethu a gwerth am arian yn sylweddol yn y cyrff llywodraeth leol a GIG unigol a archwilir er mwyn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol i'r sefyllfa sy'n datblygu.

24 Roedd hyn yn cynnwys datblygu rhaglen waith dysgu COVID-19 a diwygio cwmpas ein rhaglenni er mwyn rhoi rhagor o sylw i faterion megis cynllunio adferiad. Daethom hefyd â gwaith ar Brofi, Olrhain a Diogelu i'n rhaglenni lleol.

25 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio a wneir yn y cyrff hynny yn **Atodiad 1**.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

26 Mae ein rhaglen waith genedlaethol wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd bob amser er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a materion sy'n newid sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol. Gyda goblygiadau yr achosion o COVID-19 yn ychwanegiad hwyr at y rhestr honno, gwnaethom arfer yr hyblygrwydd hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn fwy nag erioed o'r blaen.

27 Ers dechrau'r cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mawrth 2020, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Senedd er mwyn cefnogi ei waith craffu ei hun ar agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Gwnaethom ymgysylltu'n rheolaidd hefyd â'n cymheiriaid yn swyddfeydd archwilio eraill y DU er mwyn rhannu dysg ynghylch ein hymatebion priodol i'r pandemig.

28 Gwnaethom gyhoeddi rhai adroddiadau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr ymateb i COVID-19 ac effaith y pandemig, a gwnaethom ail-lunio llawer o'n gwaith arfaethedig er mwyn ei leoli yn y cyd-destun hwn. Ceir enghreifftiau yng ngweddill yr adran hon.

29 Ar yr un pryd, yn rhan o'n hymateb i'r amgylchiadau sy'n newid, mae'n anochel y bu'n rhaid inni wneud rhywfaint o waith ailflaenoriaethu. Cafodd rhai o'r prosiectau yr oeddem yn bwriadu eu dechrau yn wreiddiol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol eu gohirio, a gwnaethom ailedrych ar y pynciau hynny (sy'n cynnwys adolygiadau dilynol o seilwaith band eang, tai fforddiadwy, a rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol) yn rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer 2021-22.

30 Gwnaethom gwtogi hefyd rai o'n cynlluniau ar gyfer gwaith manylach ac allbynnau annibynnol er mwyn arbed amser yn gyffredinol neu adlewyrchu pan nad oedd yn bosibl cwblhau gwaith maes arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith cynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru a rheoli grantiau cyffredinol, pan rydym yn defnyddio ein sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru yn lle hynny er mwyn darparu rhywfaint o ddadansoddiad lefel uchel cychwynnol. Ar gyfer rheoli grantiau, rydym yn awyddus i ailgwmpasu'r gwaith hwn wrth inni ystyried datblygiadau COVID-19 perthnasol.

31 Yn gyffredinol, gwnaethom gyflawni 22 o allbynnau adroddiad cenedlaethol yn 2020-21; ffigur sy'n gyson â'r targed a'r alldro a adroddwyd ar gyfer 2019-20.

32 Mae Atodiad 2 yn darparu rhestr gyfoes o waith a gwblhawyd neu a gychwynnwyd yn 2020-21, yn rhan o'n rhaglen genedlaethol.

## Cefnogi atebolrwydd a gwaith craffu effeithiol

33 Yn ystod 2020-21, roedd allbynnau ein gwaith yn cefnogi 26 o gyfarfodydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (a gynhaliwyd trwy raglen cyfathrebu â fideo).

34 Yn yr un modd, roedd mwyafrif y cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyflym i addasu i heriau'r sefyllfa a daeth yn norm inni gymryd rhan yn eu cyfarfodydd Archwilio a chyfarfodydd eraill y Pwyllgor Craffu, gan ddefnyddio rhaglenni cyfathrebu â fideo er mwyn darparu sesiynau cyfarwyddo rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

35 Yn **Atodiad 3**, rydym yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y gwnaethom gefnogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn fwy cyffredinol ynghylch ein cefnogaeth mewn cysylltiad â gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol. Mae Atodiad 3 hefyd yn cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch datgelu gwybodaeth.

## Gwaith arferion da

36 Mae pwyslais allweddol ein gwaith arferion da ar hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau pan fo dysg o'n gwaith archwilio ac o'u profiadau cymharol yn cael ei rhannu wyneb yn wyneb. Rydym ni'n dod yn gynyddol â safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

37 Nid oedd ein dull mwyaf cyffredin ar gyfer sgyrsiau o'r fath – cynnal seminarau dysgu a rennir wyneb yn wyneb – yn ddichonadwy yn 2020-21 oherwydd y cyfyngiadau symud a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Yn hytrach, newidiwyd pwyslais ein gwaith arferion da er mwyn cyflawni prosiect gwersi'r COVID-19.

38 Yn ystod y flwyddyn, rhannwyd enghreifftiau o arloesedd, dulliau gweithredu newydd a phwyntiau o ddiddordeb trwy lif rheolaidd o negeseuon Twitter, blogiau, crynoadau pythefnos a gweminarau ar-lein cyfnodol. Ym mis Mawrth 2021, daethom â hyn i gyd at ei gilydd mewn digwyddiad dysgu wythnos o hyd, er mwyn myfyrio ar y 12 mis blaenorol a rhannu mewnwelediadau ychwanegol.

## Ansawdd archwilio

39 Mae ansawdd ein gwaith o'r pwys mwyaf i ni a'n rhanddeiliaid. Mae Cod Ymarfer Archwilio, a adolygir yn flynyddol, yn rhagnodi sut i arfer archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol a rhai swyddogaethau eraill, ac fe'i cynlluniwyd i ategu Safonau Rhyngwladol ar Archwilio ac i ymgorffori'r arferion proffesiynol gorau.

40 Mae ein Datganiad Tryloywder yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut yr ydym yn bodloni safonau uchel o ran y ffordd yr ydym yn gweithio ac ansawdd ein gwaith. Rydym yn cynnal rhaglenni adolygu ansawdd blynyddol sy'n edrych ar sampl o archwiliadau cyfrifon a phrosiectau archwilio perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Eleni, dangosodd ein gwaith monitro ansawdd fod 100% o'r archwiliadau cyfrifon 2019-20 a samplwyd a 100% o'r prosiectau archwilio perfformiad a adolygwyd yn 2020 wedi bodloni'r safonau ansawdd gofynnol.

## Cynnal y busnes

41 Gwnaethom barhau i fonitro'n ofalus sefyllfa COVID-19, sy'n symud yn gyflym, gan weithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ac eithrio rhai achosion prin iawn o ailagor ym mis Medi 2020, arhosodd pob un o'n swyddfeydd ar gau mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol. Roedd ein holl staff yn gweithio o bell gartref.

42 Ein prif flaenoriaethau o ran cynnal y busnes oedd addasu a lleihau yr amhariad ar ein gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol, gan sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn gan ein pobl wrth eu cadw nhw'n ddiogel a monitro eu lles. Trwy gydol y cyfnod, ein hegwyddorion fu 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno', ac rydym yn cadw at yr egwyddorion hynny o hyd.

43 Ers mis Mawrth 2020, parhaodd y Bwrdd, ei Bwyllgorau, a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i weithredu'n effeithiol gan ddefnyddio rhaglenni cyfarfod ar-lein.

44 Yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig fu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithredu o bell ac yn hyblyg ymhlith ein timau a gyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym. Galluogodd ein strategaeth buddsoddi mewn TG parhaus, a oedd yn cynnwys £63,000 yn 2019-20 ar liniaduron hybrid newydd sy'n caniatáu i'n staff weithio gartref yn effeithlon ac yn effeithiol, newid cymharol ddi-dor i weithio o bell.

45 Elfen hanfodol arall o'n hymateb oedd y defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o ddulliau i ymgysylltu â'n staff, rhoi sicrwydd iddynt a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf hanfodol ar y sefyllfa a oedd yn datblygu, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch sut y gallent gael gafael ar adnoddau a chymorth. Gwnaethom gasglu sylwadau rheolaidd ar eu profiadau hefyd er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder.

46 Gweithiodd ein staff yn eithriadol o galed yn 2020-21 mewn amgylchedd hollol wahanol a heriol. Ein dull gweithredu ar hyd yr amser fu blaenoriaethu lles staff a derbyn, yn anochel, fod y pandemig wedi cael effaith ar ein gallu cyffredinol wrth i gydweithwyr reoli cyfrifoldebau gofalu, gwarchod ac effeithiau uniongyrchol eraill y feirws. I raddau amrywiol, roedd hyn yn effeithio ar draws timau archwilio a gwasanaethau corfforaethol.

# Y meysydd y pwysleisir arnynt

47 Mewn ymateb i’n hamgylchedd gweithredu ac i’n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, ar gyfer 2020-21 gwnaethom nodi 11 maes i bwysleisio arnynt wrth inni gyflawni ein harchwiliadau a chwe maes i bwysleisio arnynt wrth inni gynnal y busnes. Mae’r adran hon yn crynhoi ein cynnydd.

## Cyflawni archwiliadau

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Gwella’r modd yr ydym yn casglu, caffael a dadansoddi data, gan gynnwys trwy awtomeiddio tasgau syml ac ailadroddus fel y gallwn ganolbwyntio ein hamser ar feysydd â risg uwch y mae angen rhagor o sylw arnynt. | 2020-21 oedd blwyddyn olaf strategaeth dadansoddi data a rhaglen waith tair blynedd. Mae dadansoddi data bellach yn rhan allweddol o’n rhaglen trawsnewid digidol ehangach.<br>Mae datblygiadau allweddol wedi cynnwys:<br>• sefydlu tîm dadansoddi data parhaol.<br>• gweithio ar gyfres o offer a chymwysiadau er mwyn ymwreiddio dadansoddi data yn ein gwaith archwilio cyfrifon, gan gynnwys trwy gasglu gwybodaeth fyw yn awtomatig ynghylch y cynnydd ar archwiliadau.<br>• cyflymu’r gwaith ar fynediad o bell i gyfriflyfrau a systemau ariannol allweddol cyrff y GIG a llywodraeth leol, er mwyn ein galluogi i gynnal gwaith archwilio cyfrifon heb fod angen ymweld â safleoedd yn ystod y pandemig.<br>• symud tuag at raglen TG cyffredin ar gyfer ein holl waith archwilio, er mwyn cefnogi gweithio mwy integredig.<br>• datblygu offer data mewnol i gefnogi’r broses o rannu gwybodaeth ar draws timau archwilio a darparu’r stori ddata ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.<br>• mesur yr arbedion a’r effeithlonrwydd posibl yn y dyfodol o ddefnyddio dull archwilio a alluogir gan ddata. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Gwella'r ffordd yr ydym yn delweddu ac yn cyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys cyhoeddi ystod ehangach o offer data rhyngweithiol a thrwy fuddsoddi mewn gwella yn rhagor sgiliau ymgysylltu a dylanwadu ein staff. | Mae ein defnydd o offer data ac adroddiadau rhyngweithiol wedi parhau i wneud cynnydd yn 2020-21. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi sawl offeryn data rhyngweithiol sy'n dod ag ystadegau a gwybodaeth arall o'n gwaith archwilio at ei gilydd mewn adnoddau hygyrch sengl.<br>Mae'r allbynnau allweddol wedi cynnwys:<br>• offeryn data cyllid GIG Cymru wedi'i ddiweddaru sy'n dangos sefyllfa ariannol canol blwyddyn pob un o gyrff y GIG yn ogystal â gwariant ychwanegol oherwydd y pandemig.<br>• offeryn i gefnogi ein hadroddiad ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n darparu manylion ychwanegol ynghylch statws y broses o gyflwyno'r system ar draws byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar adeg yr adroddiad.<br>• offeryn i gefnogi ein hadroddiad ynghylch Cysgu Allan yng Nghymru, a gefnogwyd hefyd gan gyfres o flogiau a edrychodd ar ddata olion traed rhywun sy'n cysgu allan a sut y mae angen i gyrff cyhoeddus wneud defnydd mwy deallus o'r data hynny.<br>• offeryn data tueddiadau gwariant cyhoeddus wedi'i ddiweddaru i gefnogi sylwebaeth ehangach mewn blog ynghylch defnyddio tueddiadau ariannu i ddeall yr ymateb i COVID-19. |
| Ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd gyda chanlyniadau o'n gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys datblygu allbynnau newydd sy'n esbonio, mewn iaith symlach, gwybodaeth allweddol a thueddiadau o gyfrifon cyrff cyhoeddus. | Rydym wedi parhau i gynyddu ein gwelededd a'n perthnasedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf trwy gynhyrchu cynhyrchion mwy modern a hygyrch sy'n ymwneud â'n gwaith archwilio cyfrifon. Yn ogystal â'r offer data ariannol a restrir uchod, mae hyn yn cynnwys sylwebaeth symlach a ffeithluniau ar y we ynghylch:<br>• cyfrifon cryno y GIG yng Nghymru.<br>• Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru.<br>• cyfrifon cynghorau unigol yng Nghymru. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Archwilio'n fanylach y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd integredig a chydweithredol, gan gynnwys mewn cysylltiad â threfniadau gofal iechyd parhaus, y ddarpariaeth o wasanaethau brys a'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu. | Yn ein Cynllun Blynyddol, gwnaethom nodi sawl allbwn a oedd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad hwn. Er y bu'n rhaid addasu rhai amserlenni oherwydd y pandemig, mae allbynnau allweddol yn ystod 2020-21 wedi cynnwys:<br>• crynodeb o ganlyniadau ein harchwiliadau a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Felly, Beth sy'n Wahanol?<br>• cam dau adolygiad o drefniadau partneriaeth (o safbwynt y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) sy'n ymdrin â phobl sy'n cysgu allan yng Nghymru – Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb.<br>• archwiliad o System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru,<br>• gweithio yn Cyngor Sir Dinbych a Cyngor Conwy, gan adolygu eu trefniadau cronfa a gydgasglwyd ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal, a lywiodd waith cwmpasu ar brosiect rhanbarthol sy'n edrych ar gomisiynu cartrefi gofal ledled y Gogledd.<br>• adroddiad ar y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru , a ddangosodd sut y daeth gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru at ei gilydd i adeiladu system brofi ac olrhain cysylltiadau yn gyflym ac o'r newydd.<br>• noda ein Prosiect Gwersi'r COVID-19 fod llawer o enghreifftiau o weithio integredig a chydweithredol wedi ymddangos o ganlyniad i'r pandemig. Un enghraifft o'r fath oedd y cydweithio agos rhwng Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol (Wrecsam), a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth iddynt fynd i'r afael ag effaith y pandemig, fel y disgrifir yn ein blog – Cynnal ymdrechion gwirfoddoli yn ystod COVID-19. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n rownd gyntaf o archwiliadau o'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a phennu sut y byddwn yn datblygu ymhellach ein dull o archwilio yn y maes hwn. | Ym mis Mai 2020, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad statudol cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Felly, Beth sy'n Wahanol? Yn yr adroddiad, gwnaethom ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, hyd yma, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.<br><br>Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru adroddiad cysylltiedig ar yr un pryd, ac roeddem wedi bwriadu cynnal digwyddiad dysgu a rennir ar y cyd ym mis Medi ar gyfer arweinwyr y sector cyhoeddus. Yn anffodus, gwnaethom benderfynu gohirio'r digwyddiad oherwydd yr ail gynnydd mewn achosion COVID-19 ledled Cymru, er inni barhau â'n cynlluniau i rannu ein canfyddiadau ag Aelodau'r Senedd, eu staff a staff Comisiwn y Senedd trwy weminar. Ar 7 Hydref 2020, gwnaethom gydgyflwyno hefyd ganfyddiadau yr adroddiadau i gynulliad o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.<br><br>Yn ystod ail hanner y flwyddyn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y dull i'w fabwysiadu ar gyfer ein harchwiliadau egwyddorion datblygu cynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys datganiad wedi'i ddiweddaru ynghylch ein blaenoriaethau yn y maes hwn, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu offer/hyfforddiant/canllawiau er mwyn cefnogi dull â gwreiddiau dyfnach, a datblygu ymhellach ein gwaith o archwilio'r broses o bennu amcanion lles. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn ar draws cyfundrefn cyllid cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cyflwyno trefniadau cryfach ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned. | Mae allbynnau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n ymwneud â'r maes hwn y pwysleisir arno wedi cynnwys:<br>• offeryn data Cyllid GIG Cymru wedi'i ddiweddaru sy'n edrych ar dueddiadau yng nghyllid y GIG.<br>• adroddiad yn nodi bod gweithgareddau twyllodrus wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig, 'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru.<br>• adroddiad yn ystyried Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19.<br>• adroddiad, Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol, sy'n ystyried y diwylliant, y sgiliau a'r systemau sydd eu hangen ar Gynghorau i ddatgloi'r manteision ac i liniaru'r risgiau o fasnacheiddio.<br><br>Hefyd, gwnaethom gyflwyno trefniadau archwilio cryfach ar gyfer cynghorau cymuned a thref, yn seiliedig ar gylch tair blynedd. Mewn dwy allan o dair blynedd, mae'r trefniadau archwilio yr un fath â'r rhai sydd ar waith i raddau helaeth, hyd at a chan gynnwys 2019-20. Mewn un o'r blynyddoedd yn ystod y cylch tair blynedd, bydd archwilwyr yn cynnal archwiliad manylach gan edrych ar drafodiadau unigol. Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliwyd gweminar gysylltiedig er mwyn rhoi rhagor o fanylion i gynghorau ynghylch sut y bydd y trefniadau newydd yn gweithio yn ymarferol<br><br>Hefyd, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar yr ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol a gwblhawyd yn ddiweddar iawn ym mis Hydref 2020. Gwnaethom estyn cwmpas ein gwaith Menter Twyll Genedlaethol yn 2020 er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal gwiriadau cymhwysedd ar geisiadau am grantiau cymorth yn sgil COVID-2020. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Paratoi adroddiad wedi'i ddiweddaru o'r 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' sy'n nodi'r prif heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd a pha mor dda y maent wedi eu lleoli i ymateb iddynt, er mwyn llywio gwaith y Senedd yn dilyn etholiadau 2021. | Gwnaeth ein gwaith ar y prosiect hwn gynnydd yn ystod y flwyddyn, ond bu'r amserlenni'n heriol o dan yr amgylchiadau, a chafodd y prosiect ei ailgwmpasu yn unol â hynny.<br><br>Rydym yn debygol o gyhoeddi'r prif adroddiad o'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2021, ond rydym wedi ystyried amrywiaeth o allbynnau gwahanol o dan fantell gyffredinol y prosiect hwn.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys offeryn data tueddiadau gwariant cyhoeddus wedi'i ddiweddaru i gefnogi sylwebaeth ehangach mewn blog ynghylch defnyddio tueddiadau ariannu i ddeall yr ymateb i COVID-19.<br><br>Mae allbynnau eraill o'n gwaith lleol yn 2020-21 sy'n ymwneud â'r maes hwn y pwysleisir arno yn cynnwys ein hadroddiadau ar:<br><br>• Gyllid y GIG<br>• Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol<br>• Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i bandemig COVID-19 |
| Datblygu cynigion ar sut y byddwn yn ymateb i'r heriau a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd trwy ein gwaith archwilio, gan ystyried yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. | Gwnaethom rywfaint o waith ymchwil cychwynnol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y maes hwn ac rydym wedi ystyried canlyniadau'r gwaith hwnnw ochr yn ochr â'n gwaith o ddatblygu dull yr Archwilydd Cyffredinol o gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy.<br><br>Rydym wedi cynnwys rhywfaint o waith prosiect penodol o amgylch ymateb y sector cyhoeddus i'r newid yn yr hinsawdd yn ein rhaglen waith ar gyfer 2021-22. Mae gwaith cynllunio manylach ar y gweill yn awr. Rydym wedi sefydlu grŵp cyfeirio mewnol newid yn yr hinsawdd sy'n cynnwys staff o bob rhan o'n timau archwilio er mwyn cefnogi datblygiad ein dull gweithredu. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Trwy ein Cyfnewidfa Arfer Da, ehangu'r ystod o ddulliau a ddefnyddir i hwyluso'r broses o rannu dysg y tu allan i'n rhaglen graidd o seminarau a gweminarau. | Yn 2020-21, newidiwyd pwyslais ein gwaith arferion da i gyflwyno prosiect gwersi'r COVID-19, lle casglodd ein staff arferion newydd ac arferion nodedig eraill wrth iddo ddod i'r amlwg, a'i ddadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol. Buom yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cyhoeddus ac ochr yn ochr â'n timau archwilio o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn berthnasol, yn amserol ac yn hygyrch. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yn adran Astudiaethau Achos yr Adroddiad hwn.<br><br>Bydd y gwaith o ddatblygu'r dull mwy hyblyg hwn o ymdrin â'n rhaglen arferion da yn parhau yn ystod 2021-22 a bydd yn cyd-fynd yn agos â'n rhaglen o astudiaethau ac archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol, gyda themâu allweddol yn dod i'r amlwg wrth i'r sector cyhoeddus symud i'r cam adfer. |
| Datblygu ystod fwy amrywiol o ddulliau ar gyfer casglu safbwyntiau ein rhanddeiliaid am werth ac effaith ein gwaith, gan ganolbwyntio i ddechrau ar geisio safbwyntiau Aelodau'r Senedd. | Yn 2020-21, gwnaethom gomisiynu Beaufort Research i gynnal ymchwil ymhlith Aelodau'r Senedd er mwyn deall eu canfyddiadau o Archwilio Cymru a gwerth ac effaith ein gwaith.<br><br>Cytunodd 19 o Aelodau'r Senedd gymryd rhan yn yr arolwg ffôn a gynhaliwyd rhwng 11 Mawrth ac 8 Ebrill 2021.<br><br>Yn gyffredinol, roedd gan Aelodau'r Senedd a gymerodd ran yn yr arolwg lawer o barch at ein gwaith. Roedd bron pob un o'r farn bod:<br>• ein swyddogaeth yn hanfodol wrth graffu ar sut y caiff arian cyhoeddus ei wario a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.<br>• ein gwaith wedi rhoi dealltwriaeth ddefnyddiol iddynt na fyddent wedi'i chael fel arall a'i fod wedi cynorthwyo eu gwaith fel Aelodau o'r Senedd.<br>• ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.<br><br>Canmolwyd ansawdd a manylder ein hadroddiadau yn eang, ond roedd rhai o'r farn y gallem ni wneud mwy i amlygu materion neu feysydd sy'n peri pryder, ac y byddai o fudd i ni baratoi crynodebau byrrach. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r Aelodau hefyd welliannau yn canolbwyntio ar godi proffil Archwilio Cymru ymhlith y cyhoedd er mwyn iddynt fod yn fwy ymwybodol o'n swyddogaeth bwysig wrth archwilio cyrff cyhoeddus a chraffu ar sut y caiff arian cyhoeddus ei wario.<br><br>Defnyddir yr adborth a gafwyd i lywio ein gwaith gwella parhaus ac i ddatblygu ein strategaeth gyfathrebu. Rydym hefyd wrthi'n datblygu ein dull ehangach o gasglu adborth gan randdeiliaid yn y dyfodol. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Ymestyn ein trefniadau rheoli ansawdd archwilio er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol bod tystiolaeth gadarn a dadansoddiadau trwyadl yn sail i'n holl waith, ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyson â safonau archwilio rhyngwladol newydd. | Yn 2020, gwnaethom sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio newydd i roi cyngor a chymorth ac i sicrhau bod:<br>• ein trefniadau ar gyfer rheoli a monitro ansawdd archwilio yn effeithiol ac yn unol â safonau ansawdd rhyngwladol.<br>• gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol ac yn bodloni'r gofynion a nodir mewn canllawiau a safonau proffesiynol perthnasol.<br>• ansawdd ein gwaith archwilio yn parhau i wella yn unol â'r arfer proffesiynol gorau.<br>Mae'r Pwyllgor yn cynnwys uwch staff â chyfrifoldeb am reoli a monitro ansawdd ein gwaith, ynghyd ag Aelod Proffesiynol Annibynnol. Pamela McCreedy, cyn Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) oedd y swyddog hwnnw i ddechrau. Fe'i holynwyd yn y swydd gan Suzanne Walsh, Cyfarwyddwr NIAO sy'n gyfrifol am ansawdd archwilio pan adawodd Ms McCreedy yr NIAO i fynd i uwch swydd arall yn y sector cyhoeddus.<br>Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried ein rhaglen ar gyfer adolygu ansawdd ein gwaith archwilio, ynghyd â chynlluniau sy'n datblygu ar gyfer ffordd newydd o reoli ansawdd Archwilio Cymru. Mae canlyniadau'r rhaglen adolygu wedi'u crynhoi yn adran dangosyddion perfformiad allweddol yr Adroddiad hwn.<br>Yn ddiweddarach yn 2021, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Ansawdd newydd i'r cyhoedd, a fydd yn cynnwys datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio ar ddigonolrwydd ein trefniadau ansawdd. |

## Cynnal y busnes

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Ailstrwythuro ein huwch-dîm gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cydnaws â'n huchelgeisiau cyffredinol a chryfhau'r arweinyddiaeth strategol a ddarperir i'r staff. | Ym mis Mawrth 2020, gwnaethom gwblhau'r broses o ailstrwythuro ein huwch-dîm rheoli. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymarferion recriwtio ar gyfer swyddogaethau newydd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid, a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol. Ynghyd â'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ffurfio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sydd newydd gael ei sefydlu. |
| Cyflawni newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn rheoli ac yn cynllunio ar gyfer prosiectau sy'n golygu newid mawr, gan gynnwys cymhwyso arferion rheoli newid mwy trwyadl a chyson. | Dros y deuddeg mis diwethaf, yn dilyn sefydlu Tîm Rhaglen Newid canolog penodedig i gydlynu'r ddarpariaeth a sicrhau dull cyson, rydym wedi parhau i gymryd camau er mwyn gwella'r ffordd y caiff pob math o brosiectau newid eu darparu yn Archwilio Cymru.<br><br>Mae hyn wedi cynnwys dwyn ynghyd bortffolio o brosiectau newid â blaenoriaeth, sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid i gefnogi a goruchwylio'r gwaith o gyflawni a darparu adnoddau ar gyfer gweithredu, a meithrin ein sgiliau newid ar draws Archwilio Cymru. |
| Gwella ein proffil cyhoeddus trwy ddatblygu tôn llais corfforaethol sy'n fwy allblyg a gwahaniaethol a'i gwneud yn haws ein hadnabod ni drwy fabwysiadu hunaniaeth ymbarél 'Archwilio Cymru'. | Ar 1 Ebrill 2020, daethom â gwahanol elfennau ein gwaith ynghyd o dan hunaniaeth ymbarél newydd a chliriach Archwilio Cymru.<br><br>Gwnaed gwaith sylweddol ers hynny i foderneiddio ac ailbwysleisio ein hadroddiadau archwilio a chynnwys ein gwefannau, gan gynnwys defnyddio delweddau, offer data ac adrodd rhyngweithiol. Mae hyn wedi cynnwys defnydd mwy rhagweithiol o flogiau hefyd er mwyn rhoi'r uchafbwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein canfyddiadau yn y parth cyhoeddus mewn ffordd amserol a mwy hygyrch. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Cryfhau ein strategaeth ar gyfer denu, cadw, a datblygu gweithlu hyfedr ac amrywiol, gyda phwyslais penodol ar sicrhau bod ein prosesau recriwtio, rheoli talent a chynllunio olyniaethau yn cael eu hadnewyddu a'u bod nhw'n addas i'r diben. | Rheoli talent a chynllunio'r gweithlu yw un o'r meysydd allweddol y pwysleisir arnynt yn ein Strategaeth Gweithlu wedi'i ddiweddaru, a gymeradwywyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2020.<br><br>Ategir y strategaeth gan Gynllun Cyflawni manwl ar gyfer y Gweithlu, a bydd ei chynnydd yn cael ei monitro bob chwarter gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol. |
| Darparu cymorth parhaus i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar gyfer ei waith o fynd i'r afael â'r cymhlethdod diangen yn ein trefniadau statudol ar gyfer codi ffioedd a llywodraethu. | Y llynedd, ac ar ddechrau'r flwyddyn hon, gwnaethom ddarparu papur cyfarwyddo helaeth i gefnogi'r Pwyllgor Cyllid i ddatblygu Bil sydd â'r nod o ddiwygio a symleiddio ein gofynion statudol o ran codi ffioedd a llywodraethu.<br><br>Yn anffodus, byddai'r Bil yn annhebygol iawn o gael ei gymeradwyo heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru, ac er bod y Gweinidog wedi mynegi ei gefnogaeth glir iddo ym mis Gorffennaf 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt yn y cyfamser. Felly, gohiriodd y Pwyllgor ei waith ar y Bil tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2021. Rydym yn barod i gefnogi'r Pwyllgor ymhellach pan fydd wedi ailddechrau ar ei waith ar y Bil. |

| Y maes y pwysleisir arno | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|
| Ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth yn ein prosesau o wneud penderfyniadau, gan gynnwys wrth gynnal adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff, datblygu cynigion er mwyn diwallu ein hanghenion llety yn y dyfodol, ac arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a chlyfrach o weithio. | Er nad ydym yn gyrff rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ceisio cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae gwaith wedi mynd rhagddo er mwyn datblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion llety yn y dyfodol ac i arbrofi gyda ffyrdd newydd a mwy effeithlon a chlyfrach o weithio. Hefyd, mae adolygiad o'n trefniadau teithio a chynhaliaeth staff yn mynd rhagddo'n llawn yn awr.<br><br>Mae ein Bwrdd wedi nodi tair ffordd y bydd yn cyflawni ei ymrwymiad i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein penderfyniadau, yn enwedig mewn cysylltiad â'r prosiectau uchod.<br><br>• herio'r cynigion, y cynlluniau a'r strategaethau sy'n dod ger ei fron ar gyfer penderfyniad.<br>• datblygu'r pum ffordd o weithio i'r ffordd y mae'n cynnal ei fusnes.<br>• ceisio sicrwydd gan y rheolwyr ynghylch cymhwyso'r pum ffordd o weithio ar draws y sefydliad. |

# Enghreifftiau o astudiaethau achos o'n gwaith

48 Yn yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau o astudiaethau achos o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2020-21 a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi ei chael. Mae ein henghreifftiau o astudiaethau achos wedi eu grwpio gyda'i gilydd gan ddibynnu ar eu haliniad â'n huchelgeisiau cyffredinol.

## Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein mewnwelediad

### Astudiaeth achos 1: Cysgu ar y stryd yng Nghymru - mwy na phroblem tai yn unig

49 Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb sy'n edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio i helpu pobl sy'n cysgu allan ledled Cymru. Yn rhan o'r adolygiad, buom yn siarad â phobl ddigartref ledled Cymru i geisio canfod mwy am eu straeon, gan glywed yn aml gyfrifon gofidus o sut yr oedd teuluoedd a gwasanaethau cyhoeddus wedi siomi pobl ifanc iawn a'u rhoi mewn peryglu.

50 Trwy waith ymgysylltu astudiaethau achos manwl a dadansoddiad ariannol cynhwysfawr, gwnaethom nodi effaith wael y gwaith presennol ar gysgu allan a sut mae cyrff cyhoeddus yn gwastraffu arian – hyd at £210 miliwn bob blwyddyn – drwy ymateb i gysgu allan, ond heb fynd i'r afael chysgu allan. Mewn ymateb, gwnaethom greu offeryn hunanasesu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i nodi eu cryfderau a'u gwendidau yn y ffordd y maent yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd. Gwnaethom gyhoeddi hefyd offeryn data sy'n helpu i esbonio'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n cysgu allan yng Nghymru a'r effaith y maent yn eu cael arnynt.


51 Pwysleisiwn y bydd atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu leihau eu heffeithiau o leiaf, yn debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gysgu allan. Gwnaethom dynnu sylw hefyd at y ffaith bod pandemig COVID-19 yn rhoi cyfle unigryw i gyrff cyhoeddus newid yn sylfaenol sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â chysgu allan. Mae gwneud hynny yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud mwy na dim ond canolbwyntio ar roi to i bobl dros eu pennau. Mae angen i bob partner newid yr hyn a wnânt a sut y maent yn ei wneud ef, a fydd yn ei dro yn arwain at arbedion ariannol sylweddol i wasanaethau cyhoeddus ac, yn bwysig, gwell canlyniadau i rai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

## Astudiaeth achos 2: Sylwadau archwilio ynghylch yr ymateb i COVID-19

52 Mae pandemig COVID-19 wedi gofyn am ymateb i argyfwng ar raddfa heb ei debyg yn y cyfnod diweddar. Bu'n rhaid rhoi gwasanaethau cyhoeddus newydd ar waith yn gyflym ac ehangu'r gwasanaethau a oedd eisoes yn bodoli yn sylweddol, ac roedd hyn oll yn cynnwys symiau sylweddol o arian cyhoeddus. Yn ystod 2020-21, gwnaethom addasu ein rhaglen archwilio arfaethedig er mwyn darparu sylwebaeth amserol ac annibynnol ar effeithiolrwydd yr ymateb hwn.


53 Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi golwg gyffredinol o'r cynnydd a wnaed hyd yma ar raglen Profi, Olrhain, Diogelu ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tynnwyd sylw gennym at y gwaith cydweithredol cadarnhaol er mwyn adeiladu system brofi ac olrhain cysylltiadau. Gwnaethom nodi hefyd, er bod y rhaglen yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw cynnar, ei bod wedi dysgu a datblygu'n sydyn.

54 Mae adroddiad diweddar arall ynghylch Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn dangos bod Cydwasanaethau'r GIG, gan weithio gydag eraill, wedi ymateb yn dda mewn amgylchiadau anodd i ddatblygu a chynnal y cyflenwadau cenedlaethol i weithwyr iechyd a gofal ac wedi osgoi rhai o'r materion a adroddwyd yn Lloegr. Er hynny, ni allwn anwybyddu'r safbwyntiau a fynegwyd gan rai o'r rheini ar y rheng flaen ynghylch eu profiadau o brinder Cyfarpar Diogelu Personol.



55 Nododd y ddau adolygiad gyfleoedd i'r sector cyhoeddus wella ei ymateb parhaus i'r pandemig. Pwysleisiodd ein hadroddiad Profi, Olrhain, Diogelu rywfaint o'r dysgu ar gyfer rhaglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol, a gwnaeth ein hadroddiad Cyfarpar Diogelu Personol argymhellion i gefnogi cynllunio mewn cysylltiad â'r pandemig yn y dyfodol. Mae'r negeseuon o'n gwaith wedi eu cyfleu trwy'r grwpiau a'r sefydliadau cenedlaethol sy'n arwain ar wahanol agweddau ar yr ymateb i'r pandemig a byddant yn cael eu hystyried maes o law gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd.

56 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym newydd gyhoeddi trosolwg cychwynnol o weithredu'r rhaglen frechu. Mae themâu tebyg i'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu wedi dod i'r amlwg, a cheir cyfleoedd i edrych y tu hwnt i flaenoriaethau uniongyrchol i ystyried gwersi ar gyfer y rhaglen imiwneiddio ehangach ledled Cymru.



## Cryfhau ein safle o fod yn llais awdurdodol, dibynadwy, ac annibynnol

### Astudiaeth achos 3: Pwysigrwydd seibergadernid yn y sector cyhoeddus

57 Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gynhyrchu adroddiad cyfrinachol ynghylch ‘Seibergadernid yn y sector cyhoeddus’. Tynnodd ein hadroddiad sylw at bwysigrwydd hanfodol seibergadernid, o gofio bod technoleg ddigidol yn dod yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

58 Wrth ddatblygu’r archwiliad, buom yn gweithio gyda sefydliadau allanol arbenigol, gan gynnwys Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU. Helpodd hyn ni i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i ategu’r arbenigedd yn ein tîm archwilio ein hunain.

59 Dangosodd ein gwaith fod ymosodiadau seiber yn gyffredin ac yn fygythiad cynyddol i gyrff cyhoeddus, a gwnaethom nodi cwmpas i gryfhau cadernid trwy gyfrifoldebau cliriach, gwell cynllunio a rhagor o ymwybyddiaeth a sgiliau.

60 Cymerwyd y cam anarferol gennym o benderfynu peidio â chyhoeddi ein hadroddiad oherwydd y risg o ysgogi rhagor o ymosodiadau seiber ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, gwnaethom rannu ein hadroddiad â chyrff cyhoeddus yn ddiogel ac yn gyfrinachol ac mae llawer ohonynt wedi ei ystyried mewn sesiynau pwyllgor archwilio preifat. Mae ein hadroddiad wedi codi proffil y mater pwysig hwn ac mae’n ymddangos ei fod yn sbarduno camau gwella. Gwnaethom rannu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am arferion da yn ystod gweminar – Mae seibergadernid yn fater i bawb (hyd yn oed Billy Idol!) a gynhaliwyd gennym ym mis Medi 2020.

## Astudiaeth achos 4: Canfod £8 miliwn mewn twyll a gordaliadau

61 Ymgymerir ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol bob dwy flynedd, gan baru data rhwng sefydliadau, systemau ac ar draws ffiniau cenedlaethol er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll posibl neu hawliadau a thrafodiadau gwallus.

62 Yn ein hadroddiad mis Hydref 2020 – y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 – rydym yn datgelu bod £8 miliwn ychwanegol o dwyll a gordaliadau wedi eu nodi yng Nghymru trwy ymarfer diweddaraf y Fenter, a bod y canlyniadau cronnol ers dechrau'r Fenter ym 1996 yn gyfanswm o £42.9 miliwn erbyn hyn.

63 Canfu ymarfer 2018-20 y Fenter fod £4.6 miliwn mewn gostyngiadau'r dreth gyngor wedi eu dyfarnu'n anghywir ar draws cynghorau Cymru. Mae hwn yn ganlyniad cyfartalog o £1,003 ar gyfer pob achos, ac arweiniodd adolygiad o barau'r Fenter at ddileu bron i 4,000 o hawliadau gostyngiad person sengl anghymwys.

64 Mae cynllun parcio y bathodyn glas yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd barcio am ddim mewn mannau lle bo mesuryddion parcio ar y stryd ar waith, mewn cilfachau 'talu ac arddangos', mewn mannau bathodyn glas dynodedig, ac ar linellau melyn sengl neu ddwbl mewn amgylchiadau penodol. Weithiau bydd bathodynnau'n cael eu defnyddio neu eu hadnewyddu'n amhriodol gan bobl ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw. Mae'n drosedd i berson anawdurdodedig ddefnyddio bathodyn glas. Arweiniodd y Fenter Twyll Genedlaethol 2018-20 at ddileu 2,354 o fathodynnau glas yng Nghymru a gwnaethom nodi £1.4 miliwn mewn gordaliadau.

65 Trwy ein gwaith Menter Twyll Genedlaethol a'n gwaith atal twyll diweddar, gwnaethom dynnu sylw hefyd at y ffaith bod pandemig COVID-19 wedi cynyddu'n sylweddol y risg o dwyll oherwydd bod cyrff cyhoeddus wedi bod angen prosesu taliadau cymorth COVID-19 ar frys, o dan amgylchiadau anodd iawn.


## Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad, a'n perthnasedd

### Astudiaeth achos 5: Gwneud synnwyr o argyfwng – casglu a rhannu arloesedd, a dysgu oddi wrth y pandemig

66 Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, daeth yn amlwg yn sydyn fod pobl a sefydliadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn ymateb i COVID-19. Roedd yr argyfwng wedi ein gorfodi i gyd i arloesi a mynd i'r afael â rhai materion hirsefydlog ar fyrder.

67 Roedd yr amodau unigryw hyn yn rhoi cyfle i Archwilio Cymru roi cynnig ar rywbeth newydd. Ochr yn ochr â'n gwaith archwilio arall, gwnaethom sefydlu prosiect i gyd-fynd â gwasanaethau cyhoeddus gyda'r nod o gasglu gwybodaeth am eu dulliau arloesol ac o rannu dysg mewn amser real. Nid oedd y dull hwn heb ei heriau, ond cynigiodd botensial enfawr o ran cefnogi gwelliant yn y sector cyhoeddus a manteisio i'r eithaf ar ein gwybodaeth a'n persbectif annibynnol ein hunain, ac o'r arbenigedd a'r rhwydweithiau dibynadwy yr ydym wedi eu meithrin ar draws y sector cyhoeddus.

68 Yn ystod y flwyddyn, rhannwyd enghreifftiau o arloesedd, dulliau gweithredu newydd a phwyntiau o ddiddordeb trwy lif rheolaidd o negeseuon Twitter, blogiau wythnosol, crynoadau pythefnos a gweminarau ar-lein cyfnodol. Tua diwedd y flwyddyn, daethom â hyn i gyd at ei gilydd mewn digwyddiad dysgu wythnos o hyd, er mwyn myfyrio ar y 12 mis blaenorol a rhannu mewnwelediadau ychwanegol. Archwiliwyd amrywiaeth o themâu yn ystod yr wythnos, o bersbectif sut mae gwasanaethau cyhoeddus wedi ymateb i COVID-19, a sut y gallai'r pandemig newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol. Roedd y themâu hyn yn cynnwys trefniadau llywodraethu, swyddogaeth cymunedau, effeithiau ar y gweithlu, a chyfathrebu ac ymgysylltu.



## Astudiaeth achos 6: Sicrhau bod ein gwaith archwilio ariannol yn cael yr effaith fwyaf posibl

69 Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys archwilio a rhoi barn ar gyfrifon cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Trwy ein mynediad heb ei debyg at symiau mawr o ddata ariannol allweddol, rydym yn cael mewnwelediad sylweddol ar faterion sy'n wynebu'r sector cyhoeddus.

70 Rydym wedi ymrwymo i wneud mwy o'r mewnwelediad a'r wybodaeth hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar ein gwaith ac yn ychwanegu cymaint o werth ato ag y gallwn. Ym mis Tachwedd 2020, am y tro cyntaf, gwnaethom gyhoeddi Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru. Nod y sylwebaeth yw ymgysylltu ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd gyda'n gwaith a thynnu sylw at y negeseuon allweddol o'r cyfoeth o wybodaeth a gynhwysir yn y cyfrifon am gyllid, llywodraethu a gweinyddu.

71 Ochr yn ochr â'r sylwebaeth, gwnaethom gyhoeddi ffeithlun rhyngweithiol gyda gwybodaeth allweddol ynghylch o ble y daw cyllid Llywodraeth Cymru, categorïau gwariant, ac asedau a rhwymedigaethau cysylltiedig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ailadrodd y dull ffeithlun hwn ar gyfer cyfrifon GIG Cymru ac ar gyfer pob cyngor mawr yng Nghymru, gan wneud rhagor â'r wybodaeth sydd gennym ac adrodd mewn ffordd fwy atyniadol.

72 Y tu ôl i'r llenni, mae ein tîm Dadansoddi Data wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr archwilio i ddatblygu dull o gyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon sy'n llawer mwy seiliedig ar ddata. Trwy'r prosiect Archwilio hwn a Gynorthwyir gan Ddadansoddeg, rydym yn datblygu dulliau o ddadansoddi poblogaethau cyfan o ddata yn hytrach na samplau yn unig, sy'n darparu mewnwelediad ychwanegol gan sicrhau peth effeithlonrwydd hefyd yn y ffordd yr ydym yn gweithredu.

## Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

### Astudiaeth achos 7: Gweithio clyfrach a'n hymateb ein hunain i COVID-19

73 Mae lles ein cyflogeion wedi bod ar flaen ein hymateb i bandemig COVID-19. Gyda'r newid angenrheidiol tuag at weithio gartref ddiwedd mis Mawrth 2020, daeth yr angen uniongyrchol i roi rhagor o hyblygrwydd i'r holl staff fel y gallent gefnogi eu lles eu hunain a lles eu teuluoedd a'u dibynyddion. Yn gynnar yn 2020-21, gwnaethom gyflwyno polisi 'gweithio clyfrach', a ategwyd gan becynnau cymorth cysylltiedig gyda'r nod o roi rhagor o ddewis i staff o ran sut, pryd a ble maent yn gweithio, o fewn cyd-destun anghenion cyffredinol y busnes.

74 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd arolygon pwls rheolaidd i asesu tueddiadau o ran sut roedd staff yn teimlo, monitro canfyddiadau am lwythi gwaith ac effeithiolrwydd cyfathrebu, a mesur barn cydweithwyr ar ddychwelyd i'r swyddfa a'r ffordd yr hoffent weithio yn y dyfodol.

75 Sefydlwyd 'Grŵp Gweithredu Lles' gennym yn gynnar yn y flwyddyn hefyd, sef grŵp bach o staff cynrychioliadol a gafodd y dasg o ddatblygu mentrau lles wedi'u targedu mewn ymateb i themâu allweddol a godwyd trwy lais y staff. Er enghraifft, roedd llawer o gydweithwyr wedi dweud eu bod wedi colli'r cyswllt cymdeithasol â'u cydweithwyr a'r cyfeillgarwch a oedd yn mynd gyda gweithio yn y swyddfa. Mewn ymateb, trefnodd y Grŵp Gweithredu rai sesiynau 'paned a sgwrs' a gafodd dderbyniad da ac, yn y cyfnod cyn y Nadolig, 'I'm an Auditor Get Me Outta Here', sef set o heriau wythnosol er hwyl.

76 Datblygiad pwysig arall oedd sefydlu rhwydwaith rhieni a gofalwyr sy'n gweithio, lle bu aelodau'n cael eu hannog i rannu eu profiadau ynghylch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda iddynt o ran cydbwyso eu bywyd gartref a'u gwaith.

> **"Bu'n dda sylweddoli nad oeddem ni ar ein pennau ein hunain â'r heriau sy'n ein hwynebu ni, ac mae'r rhwydwaith cymorth yn syniad gwych."**

## Astudiaeth achos 8: Rhaglen estynedig o brentisiaethau

77 Trwy ein rhaglen hyfforddeion graddedig, rydym yn cyflogi 48 o hyfforddeion sy’n astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifydd siartredig ACA ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein sylw ar ddarparu llwybrau mynediad eraill i’r sefydliad yn ddiweddar trwy sefydlu ystod o gyfleoedd prentisiaeth. Mae’r rhaglenni hyn yn gyson â’n hawydd i sicrhau cynwysoldeb cymdeithasol yn ein dull recriwtio, yn rhan o’n huchelgais lefel uwch i fod yn sefydliad enghreifftiol. Ar 31 Mawrth 2021, rydym bellach yn cyflogi 16 o brentisiaid ar draws tair rhaglen brentisiaeth benodol, gydag unigolion yn gweithio ym mhob rhanbarth daearyddol ledled Cymru.

78 Mae’r dewisiadau prentisiaeth yn cynnwys rhaglen astudio dwy flynedd tuag at ddyfarniad Gweinyddu Busnes Lefel 3, a rhaglen astudio tair blynedd ar gyfer gradd Gwyddor Data gan wneud diwrnod astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Ein rhaglen sydd â’r nifer uchaf o dderbyniadau yw ein Prentisiaeth Cyllid, sy’n cefnogi astudio ar gyfer cymhwyster Lefel 4 gyda Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu.

79 Yn ystod 2020-21, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn estyn y dewis prentisiaeth cyllid hwn y tu hwnt i’n sefydliad ein hunain. Mewn cydweithrediad â GIG Cymru, llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a’r heddlu a’r gwasanaeth tân, rydym wedi lansio Rhaglen Prentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan, sy’n darparu llwybr mynediad deniadol i gyllid cyhoeddus ar draws ystod o gyrff cyhoeddus ar gyfer unigolion nad ydynt ym meddu ar radd.

80 Ein huchelgais yw y bydd llawer o’r prentisiaid yr ydym yn eu recriwtio ar y rhaglen prentisiaethau cyllid yn mynd ymlaen i astudio er mwyn cael cymhwyster cyfrifeg proffesiynol yn sgil hynny, a fydd yn helpu i sicrhau llif talent o sgiliau cyllid i Gymru ar gyfer y dyfodol.



# Ein defnydd o adnoddau

81 Ers sawl blwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy[9] yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, ac yn y ffordd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon, rydym yn darparu rhywfaint o sylwebaeth lefel uchel ynghylch sut yr ydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn 2020-21.

82 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn gyrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn dal yn ceisio gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni saith nod llesiant Cymru:

- a Cymru ffyniannus
- b Cymru gydnerth
- c Cymru iachach
- ch Cymru fwy cyfartal
- d Cymru o gymunedau cydlynus
- dd Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- e Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

83 Yn ogystal â hynny, rydym wedi nodi yn yr adran hon (trwy ddefnyddio'r eiconau perthnasol) ble cyfrannodd ein perfformiad yn 2020-21 at un neu fwy o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig[10].

9 Fe'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ymddwyn 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

10 Yn unol â Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2020-2021 Trysorlys EM.

## Rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd

84 Bu rheolaeth ariannol o'r pwys mwyaf yn Archwilio Cymru yn ystod 2020-21 wrth inni ymdrin ag effaith y pandemig ar ein cyrff archwiliedig a gallu ein staff ein hunain i gyflawni gwaith archwilio o bell er mwyn ein galluogi i dynnu'r incwm ffioedd sydd ei angen arnom i dalu ein costau.

85 Roedd cyfanswm ein gwariant ar gyfer y flwyddyn bron £700,000 yn llai na'r hyn a ganiateir yn yr Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a bron £740,000 (3%) yn llai na'r hyn a wariwyd gennym yn 2019-20. Mae llawer o'r gostyngiad hwn mewn gwariant yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd ein staff yn gallu teithio i gyrff archwiliedig yn ystod y flwyddyn ac nad oedd rhai digwyddiadau'n gallu mynd rhagddynt fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

86 Roedd ein hincwm yn llai hefyd na'r hyn a ganiateir yn yr Amcangyfrif gan oddeutu £300,000, yn bennaf oherwydd yr aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â gweithio o bell yn Archwilio Cymru a'n cyrff archwiliedig.

87 Mae effaith net incwm ffioedd is a llai o wariant yn golygu ein bod yn adrodd tanwariant cyffredinol o £360,000 o'i gymharu â'r Amcangyfrif o adnoddau cymeradwy ar gyfer y flwyddyn.

88 Rydym yn edrych ar sut y bydd y newidiadau a wnaed i'r arferion gwaith, o anghenraid, yn 2020-21 yn newid y ffordd y byddwn yn gweithio yn y dyfodol ac mae'r cyfleoedd i wneud arbedion o ran teithio a llety ar flaen ein meddyliau.

89 Gwnaethom fuddsoddi £229,000 o'r £230,000 o gyllid cyfalaf sydd ar gael yn y meysydd canlynol:

- buddsoddiad o £108,000 er mwyn datblygu systemau rheoli archwiliadau newydd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol a pherfformiad;
- £106,000 mewn offer TG newydd, gan gynnwys gliniaduron a monitorau, er mwyn caniatáu i'n staff weithio gartref mor effeithlon â phosibl; a
- £15,000 mewn gwaith uwchraddio hanfodol ar gyfer ein swyddfeydd.

## Ymgysylltu â'r staff a phrofiad y cyflogai

90 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i ymgysylltu â'n cyflogeion, gan roi sicrwydd iddynt a diweddariadau hanfodol ynghylch y sefyllfa a oedd yn datblygu, gwybodaeth ynghylch sut y gallent gael gafael ar adnoddau a chymorth, a buom yn casglu sylwadau ynghylch eu profiadau er mwyn ein helpu i nodi unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder.

91 Roedd y rhain yn cynnwys:

- a negeseuon wythnosol i'r holl staff oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol.
- b cynnal sesiynau cyfarwyddo a sesiynau holi ac ateb i'r holl staff gan ddefnyddio rhaglenni cyfathrebu ar ffurf fideo.
- c cynnal arolygon 'pwls' cyfnodol.
- ch postio blogiau rheolaidd gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.
- d darparu rhaeadrau gwybodaeth rheolaidd i reolwyr llinell.

92 Unwaith eto ym mis Hydref 2020, gwnaethom gynnal arolwg ar yr holl staff er mwyn cadw golwg ar brofiad y cyflogeion a nodi ble yr oedd angen inni wella. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, seiliwyd ein harolwg ar yr holiadur craidd a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Roedd yr arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad i'r ffordd y mae timau unigol yn gweithredu. Cwblhaodd 90% o'r staff yr arolwg.

93 Ar lefel thematig, roedd canlyniadau ein harolwg yn 2020 yn cyd-fynd â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol ar y cyfan ac roeddent yn parhau i fod yn weddol gryf o'u cymharu â chyfartaledd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Yn gyffredinol, mae staff yn teimlo cysylltiad cryf iawn â'r sefydliad, maent yn teimlo yr ymddiriedir ynddynt, ac maent yn teimlo bod ganddynt yr offer i fwrw ymlaen â'u gwaith yn effeithiol. Adlewyrchid yr ymagwedd gadarnhaol hon yn ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol cryf o 70%. Roedd safbwyntiau'r staff ynghylch ymateb y sefydliad i COVID-19 yn gadarnhaol dros ben hefyd.

94 Ar y lefel fanylach, roedd yr ymatebion yn nodedig o gadarnhaol eleni ar gyfer nifer o ddatganiadau pwysig am brofiad y cyflogeion, gan gynnwys mewn cysylltiad â:

a staff a chanddynt amcanion gwaith clir ac a oedd yn cael eu hysgogi gan eu rheolwr.

b uwch-reolwyr yn bod yn ddigon gweladwy ac yn gweithredu mewn ffordd a oedd yn gyson â gwerthoedd y sefydliad.

95 Fodd bynnag, mae rhai sgorau datganiadau unigol wedi gostwng yn nodedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y meysydd canlynol, sy'n parhau i lywio ein blaenoriaethau cynllunio ar gyfer y dyfodol:

a dysgu a datblygu.

b rheoli newid.

c cyflog a buddion.

ch rheoli perfformiad.

96 Gellir gweld canlyniadau llawn yr arolwg ar offeryn data rhyngweithiol sydd ar gael trwy ein gwefan. Byddwn yn ailgynnal yr arolwg ym mis Hydref 2021.

## Iechyd a lles

97 Rydym wedi ymrwymo i annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Rydym hefyd yn dymuno i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn profi anawsterau, p'un a yw hynny'n effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u swyddogaeth ai peidio.

98 Ategir ein polisi lles gan ganllawiau i gefnogi ein hymrwymiadau ac i sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a lles sy'n ymwneud â'r staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn modd rhagweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn mynd ati'n weithredol i hybu a chefnogi iechyd emosiynol a chorfforol y staff, a'u lles, gan gynnwys trwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau a thrwy gynnig gwasanaeth sgrinio iechyd.

99 Yn ogystal â hynny, mae rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein, sy'n darparu cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

100 Ar lefel sefydliadol, yn ein harolwg staff, rydym yn cynnwys pedwar cwestiwn a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhan o'u rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol. Rydym hefyd yn cyfrifo'r Mynegai Straen Procsi[11] a'r mynegai PERMA[12] gan ddefnyddio cwestiynau yn yr holiadur Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil y dangoswyd eu bod yn elfennau pwysig mewn cysylltiad â lles. Ym mis Hydref 2020, roedd ymatebion nodweddiadol gan ein staff yn fwy cadarnhaol na rhai sefydliad Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil sy'n 'perfformio'n dda'.

101 Un eithriad nodedig oedd cyfran y staff a nododd lefelau uchel o bryder, sydd wedi cynyddu'n raddol yn ystod y tair blynedd wrth inni gynnal yr arolwg. Byddwn yn gwneud rhagor o waith i archwilio'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn ystod 2020-21.

102 Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn ofalus ac mae gennym amrywiaeth o ddulliau ar waith i gefnogi dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Collwyd 6.1 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd i absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (o'i gymharu â 5.8 diwrnod fesul cyflogai ar gyfer y flwyddyn flaenorol, a chyfartaledd o 8.0 diwrnod ar gyfer y sector cyhoeddus[13]).




## Cydraddoldeb a hawliau dynol

103 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, sef ein staff ein hunain a'r rhai y deuwn i gysylltiad â nhw yn ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

104 Mae'n ofynnol inni ddilyn y fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

11 Sy'n cyd-fynd ag offeryn rheoli straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

12 Sy'n mesur i ba raddau y mae cyflogeion yn 'ffynnu' yn y gweithle - ceir rhagor o wybodaeth yn Arweiniad Technegol Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

13 Ffynhonnell: Health and Well-Being at Work (Crynodeb o'r Sector Cyhoeddus); CIPD, Mawrth 2020

105 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2019-20 ar gael ar ein gwefan, ac mae'n dod gydag offeryn data rhyngweithiol sy'n cyflwyno ein data amrywiaeth gweithlu a bylchau cyflog. Cyhoeddir ein hadroddiad ar gyfer 2020-21 yn ystod haf 2021.







## Hybu'r defnydd o'r Gymraeg

106 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog, a thrwy gydol 2020-21, gwnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff archwiliedig, a'r cyfryngau yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn annog staff i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac yn gymdeithasol. Mae ein Strategaeth Cymraeg 2019-2022 yn amlinellu'r camau yr ydym yn dymuno eu cymryd i gryfhau ein gwasanaeth archwilio trwy recriwtio, dysgu a datblygu, a deall anghenion iaith ein cyrff archwiliedig.

107 Rydym wedi ymrwymo i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg, a welwn fel lefel sylfaenol ar gyfer gwasanaeth dwyieithog, yn hytrach na tharged. Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar ein gwefan, ochr yn ochr â'n Hadroddiad Iaith Gymraeg blynyddol diweddaraf.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

108 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu cynnig i'r gymuned ehangach ac rydym yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi eu datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.


109 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal cymunedol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

110 Yn ystod y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, mae ein staff wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau codi a rhoi arian, gan gynnwys sgoriau Pencampwriaeth y Chwe Gwlad a chystadleuaeth rhagfynegi canlyniadau.


## Stiwardiaeth amgylcheddol[14]



Achrediad **Lefel 5 Safon Amgylcheddol** y Ddraig Werdd




Gwnaethom leihau ein defnydd o bapur gan **88%**



**Gwnaethom ailgylchu** dros **87%** o'n **gwastraff**



Gwnaethom ddefnyddio credydau carbon i **wrthbwyso 100%** o'n **hallyriadau** nwyon tŷ gwydr

111 Yn 2020-21, gwnaethom gynnal ein hachrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar Lefel 5 (y lefel uchaf), sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Hefyd, gwnaethom ddechrau cynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion carbon sero-net hirdymor Cymru.

112 Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, er mwyn cefnogi gostyngiad byd-eang mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, rydym yn gwrthbwyso[15] ein holl allyriadau carbon deuocsid ($tCO_2e$), gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'n teithiau busnes, trwy gefnogi mentrau plannu coed ac atal datgoedwigo.

113 Ers mis Mawrth 2020, mae bron pob un o staff Archwilio Cymru wedi bod yn gweithio gartref. Yn gynnar yn y flwyddyn, gwnaethom gynyddu capasiti ein systemau cwmwl (sy'n darparu cysylltiadau gliniaduron o gartref trwy rwydwaith preifat rhithwir) er mwyn darparu ar gyfer y llwyth ychwanegol. Ynghyd â'r defnydd helaeth o fideo-gynadledda, gwnaethom weithio gyda chyrff a archwiliwyd i sicrhau mynediad diogel o bell i'r systemau gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer archwilio. Roedd hyn yn golygu y gellid gwneud y rhan fwyaf o'r busnes fel arfer gyda llawer llai o deithio.

114 Ym mis Mehefin 2020, gwnaethom hefyd gyhoeddi Polisi Gweithio Clyfrach i'n helpu i sefydlu ffyrdd newydd o weithio, gan ganolbwyntio ar sicrhau lles staff, a darparu offer i reolwyr er mwyn cefnogi gweithlu o bell.

14 Paratowyd yn unol â Thrysorlys EM Public Sector Annual Reports Sustainability Reporting Guidance 2020 to 2021.

15 Gwrthbwyso carbon yw'r defnydd o gredydau carbon er mwyn galluogi sefydliadau i wneud iawn am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon trwy brynu credydau mewn prosiectau ac ariannu arbediad carbon deuocsid cyfatebol mewn mannau eraill.


115 Mae mwyafrif ein staff yn defnyddio gliniaduron sy'n cyfuno swyddogaethau cyfrifiadur llechen a dyfeisiau symudol, gan leihau'r angen i argraffu papurau cyfarfodydd a'u galluogi i wneud nodiadau ar y sgrin. Yn ystod 2020-21, gwnaethom brynu rhagor o drwyddedau meddalwedd hefyd er mwyn galluogi dogfennau mawr i gael eu sganio a'u hanodi ar y sgrin, heb fod angen argraffu.

116 Rydym wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, a gwmpasodd y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi chwe amcan penodol i'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd yn well yn y dyfodol. Mae'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn wedi parhau trwy gydol 2020-21 a byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn fanylach yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn nesaf, yn unol â gofynion y Ddeddf.


13 CLIMATE ACTION

15 LIFE ON LAND


## Defnydd cyfyngedig o adnoddau




### Lleihau a rheoli gwastraff




### Allyriadau nwyon tŷ gwydr



**Y defnydd o ynni**



**Tabl sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am ein rheolaeth amgylcheddol, y defnydd cyfyngedig o adnoddau a rheoli gwastraff dros y pum mlynedd diwethaf**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | | | |
| Lefel achrediad y Ddraig Werdd | 4 | 4 | 5 | 5 | 5 |
| **Defnydd cyfyngedig o adnoddau**[16] | | | | | |
| Defnydd o ddŵr $m^3$ [17] | 3,650 | 2,586 | 2,398 | 2,225 | 2,622 |
| Defnydd o ddŵr $m^3$ fesul FTE | 13.9 | 10.0 | 9.1 | 8.3 | 9.9 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 6,219 | 3,564 | 4,389 | 4,890 | 5,163 |
| Y defnydd o bapur mewn rimiau | 1,725 | 1,496 | 1,263 | 910 | 110 |
| Costau cyflenwi papur £ | 4,269 | 3,737 | 3,894 | 2,697 | 310 |
| **Lleihau a rheoli gwastraff**[18] | | | | | |
| Cyfanswm y gwastraff mewn tunelli | 38.7 | 33.2 | 47.9 | 29.5 | 16.2 |
| Ailddefnyddiwyd, ailgylchwyd neu compostiwyd | 26.0 | 18.1 | 36.9 | 20.8 | 14.2 |
| Gwastraff TGCh a ailgylchwyd ac a ailddefnyddiwyd (yn allanol) | 0.7 | 0.2 | 0.5 | 0.3 | 0.4 |
| Dodrefn ac offer (yn allanol) | 2.6 | 0.0 | 3.8 | 5.4 | 8.7 |
| Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd | 22.6 | 17.9 | 32.6 | 15.3 | 5.1 |
| Tirlenwi | 12.4 | 12.4 | 10.5 | 8.6 | 1.8 |
| Peryglus | 0.4 | 2.7 | 0.5 | 0.1 | 0.2 |
| Y % o'r cyfanswm a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd, neu a gompostiwyd[19] | 67.0 | 54.5 | 76.9 | 70.9 | 87.5 |
| Cyfanswm y costau gwaredu £ | 13,466 | 9,964 | 13,340 | 10,896 | 8,438 |

16 Ystyrir bod arfer da ar gyfer defnyddio dŵr mewn swyddfa rhwng 4 m3 a 6 m3 fesul aelod staff Cyfwerth ag Amser Llawn fesul blwyddyn (Greening Government Commitment targets).

17 Nid yw'r cyfnodau bilio yn cyd-fynd â'r cyfnod adrodd ariannol, felly amcangyfrif yw ffigurau defnydd 2020-21. Yn 2020, bu gollyngiad dŵr mewn un swyddfa yn ystod y cyfyngiadau symud, pan oedd yr adeilad yn wag, ac aed i'r afael â hyn yn ystod yr ymweliad cynnal a chadw rheolaidd cyntaf.

18 Cyfrifwyd gan ddefnyddio ffactorau trosi WRAP priodol; mae gwastraff peryglus yn cynnwys gwarediadau TGCh.

19 Wyth a phedwar ugain y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2018-19.

## Tabl sy’n rhoi gwybodaeth fanylach am ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a’n heffeithlonrwydd o ran rheoli ystadau dros y pum mlynedd ddiwethaf

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr[20]** | | | | | |
| Cyfanswm yr allyriadau $CO_2e$ mewn tunelli | 483.7 | 419.0 | 397.5 | 344.6 | 96.4 |
| I’w briodoli i deithiau busnes | 233.2 | 242.1 | 229.0 | 221.7 | 9.5 |
| Mewn car | 199.5 | 215.7 | 188.7 | 178.3 | 9.5 |
| Mewn trên ac awyren | 33.7 | 26.4 | 40.3 | 43.4 | 0.0 |
| I’w briodoli i’r defnydd o ynni | 227.8 | 160.7 | 116.1 | 112.0 | 79.0 |
| Trydan | 220.5 | 150.5 | 109.8 | 104.7 | 68.2 |
| Nwy[21] | 7.3 | 10.2 | 6.3 | 7.3 | 10.7 |
| I’w briodoli i rywbeth arall[22] | 22.6 | 16.1 | 52.4 | 10.8 | 7.4 |
| Cyfanswm y gwariant ar deithiau busnes £000[23] | 1,232 | 1,204 | 1,205 | 1,148 | 665 |
| Cost teithiau busnes fesul FTE £ | 4,720 | 4,658 | 4,566 | 4,291 | 2.5 |
| Cyfanswm y gwariant ar ynni £ | 57,051 | 54,676 | 60,046 | 73,071 | 42,071 |
| **Effeithlonrwydd ystad** | | | | | |
| Cost fesul FTE[24] £ | 3,072 | 3,317 | 3,378 | 3,368 | 3,216 |
| Effeithlonrwydd cost[25] £ fesul $m^2$ | 287 | 306 | 318 | 321 | 305 |
| Effeithlonrwydd gofod[26] $m^2$ fesul FTE | 10.7 | 10.8 | 10.6 | 10.5 | 10.5 |

20 Cyfrifwyd yn unol â DEFRA Environmental Reporting Guidelines

21 Yn 2020, cafodd boeler nwy diffygiol ei atgyweirio. Fe’i canfuwyd yn ystod y cyfyngiadau symud yn y gaeaf pan fu’r adeilad yn wag.

22 I’w briodoli i drosglwyddo a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr.

23 Yn cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau cludiant a theithio a chynhaliaeth.

24 O’i chymharu â £3,428 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2019.

25 Gan gynnwys rhent, cyfraddau a chostau eraill.

26 O’i gymharu â 14.7 m2 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2019. Rydym yn cynnwys contractwyr yn ein cyfanswm FTE, er mwyn sicrhau cymhariaeth feincnodi gyfatebol.

# Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol da.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
10 Gorffennaf 2021

02

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Ein Bwrdd



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Alison Gerrard**
Aelod anweithredol



**Amanda Hughes**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Anne Beegan**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**David Francis**
Aelod anweithredol



**Elinor Gwynn**
Aelod anweithredol



**Ian Rees**
Aelod anweithredol



**Kevin Thomas**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd anweithredol y Bwrdd

## Ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Anne-Louise Clark**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol

117 Mae'r arddangosion yn yr adran hon yn dangos cyfansoddiad y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar 1 Mehefin 2021. I gael rhestr lawn o unigolion sydd wedi bod yn aelodau o'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, neu'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystod y flwyddyn, gweler y tabl Presenoldeb yn y Datganiad Llywodraethu.

118 Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol gan ddefnyddio'r dolenni 'Darllenwch Mwy' ar dudalen Pwy yw pwy ein gwefan.

## Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

119 Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol i Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis yn dechrau ar 1 Tachwedd 2018.

120 Yn ogystal â'u gwaith o lunio barn ar y datganiadau ariannol a rheoleidd-dra, gallai'r archwilydd gynnal archwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddynt ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau, a gosod adroddiad sy'n cynnwys canlyniadau unrhyw archwiliadau o'r fath gerbron y Senedd.

121 Datgelir manylion cost gwasanaethau archwilio allanol yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o gyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu

122 O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid iddo:

a cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn cysylltiad â nhw, a

b paratoi datganiad o gyfrifon ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Senedd.

123 Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, yn Government Functional Standard: Finance a Rheoli arian cyhoeddus Cymru.

124 Disgrifir cyfrifoldebau ychwanegol yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.

125 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Government Financial Reporting Manual, ac yn benodol, mae'n rhaid iddo:

a gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

b gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

c datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a

ch paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

126 Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i Hincwm a'i Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a Llifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

127 Yn rhinwedd fy swydd o fod yn Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn ar y cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

b Rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i ddangos bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; ac

c hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad llywodraethu

128 Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ac yn rhoi cyfrif o'r gwaith rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol, ochr yn ochr â disgrifiad o'r prif risgiau a'r ansicrwydd a wynebir gennym.

129 Nodir fy nghyfrifoldebau wrth imi weithredu fel Swyddog Cyfrifyddu yng nghyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid imi geisio sicrhau:

a y cynhelir system rheolaeth fewnol gadarn yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol cadarn, er mwyn cefnogi'r gwaith o arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a

b fod rheolaeth cyfleoedd a risgiau Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Llywodraethu corfforaethol

### Y fframwaith llywodraethu

130 Crynhoir fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a gwaith ei bwyllgorau, yn yr arddangosyn drosodd.

131 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodwyd ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith fesul blwyddyn.

132 Ceir Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan nad yw'n gallu gweithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; derbyn datgeliadau oddi wrth chwythwyr chwiban y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

133 Rheolir y berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Senedd ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

134 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ymgynghorol:

a mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol; a

b mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai.

## Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Bwrdd swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro’r broses o arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol.

Yn codi tâl am waith sydd wedi’i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Yn cydweithio â’r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori’r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o’r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

a llywodraethu;

b perfformiad; a

c pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori’r Bwrdd trwy:

a adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;

b adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a

c chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a’r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

## Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion strategol a’r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru. Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu.

135 Nid yw aelodau etholedig y Bwrdd sy'n gyflogeion yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nac yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel uwch ac eithrio yn rhinwedd swyddogaeth y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn aelodaeth eu Pwyllgor a, phan fo gwrthdaro'n codi, y byddant yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

136 Rwyf yn cadeirio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol er mwyn cyfarwyddo, goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Gweithredol. Yn ystod 2020-21, roedd pedwar Aelod sy'n Gyflogeion yn bresennol yn y cyfarfodydd hefyd ar sail gylchdroadol[27].

137 Cefnogir y Bwrdd a'i Bwyllgorau gan Ysgrifennydd Bwrdd.
Ceir blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda dros dro, a gynlluniwyd er mwyn sicrhau y cynhelir busnes mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

138 Ceir rhagor o wybodaeth am aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

27 Roedd gan yr aelodau o gyflogeion drefniadau ar waith i rannu unrhyw wybodaeth a deallusrwydd perthnasol, er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2020-21

Tabl yn dangos nifer y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2020-21, a nifer y cyfarfodydd yr oedd aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol[28] nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd yn bresennol ynddynt.

| | Y Bwrdd | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweiny-ddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **8** | **4** | **4** | **23** |
| **Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau** | | | | |
| Adrian Crompton[29] | 8 | 4 | 4 | 22 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol[30] | 8 | 2 | 3 | |
| Amanda Hughes | 8 | | 4 | |
| Anne Beegan | 8 | 4 | | |
| Bill Richardson[31] | 3 | | 1 | |
| David Francis, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol[32] | 8 | 2 | 1 | |
| Dianne Thomas, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | | 4 | | |
| Elinor Gwynn[33] | 6 | | 3 | |
| Ian Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg[34] | 6 | 2 | | |

28 Yn ystod 2020-21, gwnaethom ailstrwythuro ein huwch-dîm gweithredol gyda'r nod o sicrhau gwell aliniad â'n huchelgeisiau cyffredinol a chryfhau'r arweinyddiaeth strategol a ddarperir i'r staff.

29 Bu Adrian Crompton yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn rhinwedd ei swydd o fod y Prif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu.

30 Trosglwyddodd Alison Gerrard o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan ddod yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ar 15 Hydref 2020.

31 Ymddiswyddodd Bill Richardson o'i swydd yn aelod anweithredol o'r Bwrdd (a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol) ar 30 Medi 2020.

32 Penodwyd David Francis yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol ar 15 Hydref 2020.

33 Penodwyd Elinor Gwynn yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 1 Hydref 2020. Cyn ei phenodiad, bu'n bresennol mewn dau gyfarfod Bwrdd gan weithredu fel Aelod Anweithredol Etholedig.

34 Penodwyd Ian Rees yn aelod anweithredol o'r Bwrdd o 17 Hydref 2020. Ar y dyddiad hwnnw, cymerodd hefyd y swyddogaeth o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cyn ei benodiad, bu Ian yn bresennol mewn tri chyfarfod Bwrdd gan weithredu fel Aelod Anweithredol Etholedig.

| | Y Bwrdd | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol | Tîm Arweiny-ddiaeth Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **8** | **4** | **4** | **23** |
| Isobel Everett[35] | 5 | 2 | | |
| Kevin Thomas[36] | 6 | 4 | 3 | 21 |
| Lindsay Foyster, Cadeirydd y Bwrdd[37] | 8 | | 4 | |
| **Aelodau y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd[38]** | | | | |
| Anne-Louise Clark[39] | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Ann-Marie Harkin[40] | 2 | 1 | 1 | 20 |
| Anthony Barrett[41] | 4 | 1 | | 11 |
| Clare James, Aelod sy'n Gyflogai | 1 | | | 8 |
| Emma Woodcock, Aelod sy'n Gyflogai | | | | 7 |
| Harrie Clemens, Aelod sy'n Gyflogai | 1 | | | 7 |
| Matthew Edwards, Aelod sy'n Gyflogai | | | | 6 |
| Mike Usher[42] | 1 | | | 12 |
| Steven O'Donoghue[43] | 3 | 1 | 3 | 16 |

35 Daeth ail dymor Isobel Everett, sef ei thymor olaf, o fod yn Gadeirydd y Bwrdd i ben ar 16 Hydref 2020.

36 Penodwyd Kevin Thomas yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar 1 Gorffennaf 2020. Bu'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhinwedd ei swydd o fod y Cyfarwyddwr Cyllid.

37 Penodwyd Lindsay Foyster yn Gadeirydd y Bwrdd o 17 Hydref 2020.

38 Roedd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn ôl yr angen er mwyn rhoi cyfarwyddiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau neu dderbyn eu cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd.

39 Penodwyd Anne-Louise Clark yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid ar 15 Chwefror 2021.

40 Penodwyd Ann-Marie Harkin yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ar 1 Mawrth 2021.

41 Gadawodd Anthony Barrett Archwilio Cymru ar 30 Medi 2020 o dan gytundeb ymadael gwirfoddol.

42 Gadawodd Mike Usher Archwilio Cymru ar 30 Medi 2020 o dan gytundeb ymadael gwirfoddol.

43 Gadawodd Steven O'Donoghue Archwilio Cymru ar 7 Chwefror 2021.

## Cyfrif llywodraethu corfforaethol

139 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni trwy:

a adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau perfformiad a chyfarwyddiadau amserol;

b adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol; ac

c adroddiadau archwilio allanol.

140 Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau cysylltiedig o risg a aseswyd.

141 Mae'r Bwrdd yn fodlon ar ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael, er bod lle i wella ei ehangder a'i amseroldeb ac i sicrhau bod pwyslais gwaith y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Bwrdd wedi ei alinio'n agosach; mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

142 Wrth inni gyflawni ein gwaith, rydw i (yn rhinwedd fy swydd o fod yn Archwilydd Cyffredinol ac yn Swyddog Cyfrifyddu) a Swyddfa Archwilio Cymru yn cymhwyso Cynlluniau Dirprwyo ffurfiol. Mae'r cynlluniau dirprwyo yn llywio cylch gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau, a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, a adolygir yn flynyddol.

143 Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad lle mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofrestrau buddiannau aelodau a adolygir yn flynyddol ac a diwedderir yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu unrhyw newidiadau a hysbysir gan aelodau. Mae hyn yn sicrhau bod gwrthdaro buddiannau posibl, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru nhw. Rydym yn cyhoeddi'r Cofrestrau ar ein gwefan[44].

144 Mae gan Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei bwyllgorau hawl mynediad, a gallant roi gwybod i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

145 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol yn parhau i gael mynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod pwyllgor.

44 Gellir gweld cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol ein Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol gan ddefnyddio'r dolenni 'Darllenwch Mwy' ar dudalen Pwy yw pwy ein gwefan.

146 Yn wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau o'u cymharu â gofynion Code of Good Practice for Corporate Governance in central government departments. Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i gadw annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau'n cydymffurfio â gofynion y Cod mewn cysylltiad â'r agweddau canlynol:

- a nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn adran weinidogol, ac nid yw'n adrodd i weinidogion neu eu swyddogion ychwaith nac yn cael cyfarwyddiadau oddi wrth weinidogion neu eu swyddogion;
- b mae swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodaeth wedi eu pennu mewn statud; ac
- c nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau, ond y Bwrdd a'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol sy'n ymgymryd â'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod.

**Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**

147 Cwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ac ystyriodd y canlyniadau ym mis Mawrth 2021. Mesurodd ei hun rhwng gweddol effeithiol ac effeithiol iawn ar draws mwyafrif yr agweddau ar yr asesiad, ond yn weddol aneffeithiol ar gyfer dau o'r datganiadau profiadau Aelod a gynhwysir yn yr arolwg:

- a mae gan y Bwrdd ddealltwriaeth dda o berfformiad y sefydliad o'i gymharu â chyrff eraill fel y bo'n briodol.
- b mae gan y Bwrdd berthnasoedd a ddiffinnir yn glir â rhanddeiliaid.

148 Cytunodd y Bwrdd i ddatblygu cynllun gweithredu yn gynnar yn 2021-22 er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd i'w gwella, a chomisiynu adolygiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn ddiweddarach yn 2021, a chwblhawyd yr adolygiad blaenorol o'r fath yn 2016.

149 Yn rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu ei hun o'i gymharu â'r egwyddorion arferion da a ddisgrifir yn Audit Committee Handbook Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd yn fodlon â chadernid yr asesiadau a'r cynnwys nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder.

150 Mae gan y Bwrdd broses ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau perfformiad aelodau sy'n gweithredu ar gylch 12 i 18 mis. Fe'u cwblhawyd ddiwethaf ym mis Mai 2020, ac ar adeg adrodd, mae'r cylch diweddaraf o arfarniadau ar waith. Mae'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd ar yr un cylch.

151 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant cynefino ac ar gyfer diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy'r broses arfarnu perfformiad.

**Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

152 Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2021, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed ganddo yn ystod 2020-21.

153 Rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y canlynol:

- a ymddengys fod y trefniadau asesu a rheoli risgiau'n gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol mewn fframwaith polisi clir.
- b mae'r adroddiadau ariannol yn gyson â gofynion Government's Financial Reporting Manual a pharatoir adroddiadau yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol.
- c mae ei adolygiadau strategol o'r map sicrwydd yn awgrymu bod y fframwaith rheolaeth mewnol yn gweithredu'n effeithiol.
- ch mae'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer nodi ac adrodd am gamweddau megis twyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arferion da.
- d mae'r trefniadau gwrth-dwyll yn gadarn, er bod angen i'r rheolwyr gwblhau'r gwaith integreiddio risgiau twyll yng nghofrestr risgiau Swyddfa Archwilio Cymru.
- dd mae'r trefniadau seiberddiogelwch ymarferol yn gadarn, ond byddai sicrwydd ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy gael ardystiad allanol megis Cyber Essentials Plus.
- e mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cynnig her adeiladol ac yn cyfrannu yn gadarnhaol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

154 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafodd gan y rheolwyr a'r archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i fonitro unrhyw gamau gweithredu sydd angen sylw ac olrhain y cynnydd â'i olrheiniwr.

155 O ran cryfder ei waith yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

a dylai'r Pwyllgor adolygu'r Fframwaith Sicrwydd a sicrhau y datblygir map sicrwydd diwygiedig a wedi'i ddiweddaru sy'n cyd-fynd yn well â'r gofrestr risgiau strategol, sy'n adlewyrchu gweithrediad ac uchelgeisiau Archwilio Cymru, ac sy'n darparu fframwaith rheoli cadarn sy'n addas i'r diben.

b dylai'r Pwyllgor ddatblygu matrics sgiliau i nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y Pwyllgor, yn enwedig mewn meysydd arbenigol, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir trwy raglen hyfforddiant a datblygu addas.

**Adroddiad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol**

156 Yn 2020-21, craffodd y Pwyllgor ar ystod eang o faterion ar draws sbectrwm llawn ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys:

a archwilio effaith COVID-19 ar staff o ran absenoldeb oherwydd salwch a sicrhau bod y cymorth lles a oedd ar gael i staff yn ystod y pandemig a'r cyfnod estynedig o weithio gartref yn ddigonol.

b datblygu'r cylch gorchwyl ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen adolygu teithio a chynhaliaeth ac adolygu a herio ei gynigion yn weithredol.

c monitro gallu'r tîm Adnoddau Dynol i ddarparu cymorth Adnoddau Dynol trafodaethol ac yn ei weithgareddau i gefnogi uchelgeisiau strategol y Bwrdd a gesglir yn Strategaeth y Gweithlu.

157 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi cefnogaeth y weithrediaeth wrth iddi ystyried a gweithio trwy rai materion cymhleth sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithgareddau dyddiol y staff. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan fod trefniadau taliadau cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru:

a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;

b yn galluogi'r busnes i gael ei gynnal yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan gynnwys recriwtio, ysgogi a chadw staff; ac

c yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad taliadau cydnabyddiaeth blynyddol yn unol â gofynion cyfreithiol.

158 Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor o’r farn bod rhagor i’w wneud i sicrhau bod manteision y trefniadau hyn yn cael eu gwireddu’n llawn, yn enwedig trwy gyflawni strategaeth gweithlu, ac mae wedi gwneud sawl argymhelliad cysylltiedig i’r Bwrdd.

159 Mae’r Pwyllgor yn fodlon nad yw’r adolygiad hunanasesu o’i effeithiolrwydd wedi datgelu unrhyw feysydd sy’n peri pryder ac y bu newid rhwydd mewn trefniadau Cadeirio ac aelodaeth yn 2020-21.

**Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**

160 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan Fframwaith Ymgynghori ym Maes Rheoli Gwasanaethau Masnachol y Goron, penodwyd PricewaterhouseCoopers LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod tair blynedd 2018-19 i 2020-21.

161 Paratôdd y Pennaeth Archwilio Mewnol strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020-21 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020. Yn ystod 2020-21, cyhoeddwyd pum adroddiad archwilio mewnol gan PricewaterhouseCoopers LLP.

162 Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnal olrheiniwr er mwyn dilyn argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

**Lefelau sicrwydd a ddarperir mewn barnau ar adroddiadau archwilio mewnol**

Tabl sy'n rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2019-20, gan nodi dosbarthiad yr adroddiad o ran lefelau sicrwydd ar gyfer pob adolygiad, ochr yn ochr â chrynodeb o arsylwadau allweddol.

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Arsylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Adolygiad Wrth Hedfan COVID-19 | Cynghorol | Ar lefel gyffredinol, roedd barn gyson bod Archwilio Cymru wedi ymdopi'n dda yn ystod COVID-19. Nid yw ein hadolygiad wedi nodi bylchau sylweddol mewn trefniadau rheoli argyfwng na pharhad busnes. Rydym wedi amlinellu nifer o gyfleoedd ac argymhellion gwella y dylai Archwilio Cymru eu hystyried wrth iddi barhau i ymateb i'r pandemig. Mae'r argymhellion yn seiliedig ar y themâu canlynol; Rheoli Argyfwng, Cynllunio Senario, Llywio o'r Cyfyngiadau Symud, Cyfathrebu Mewn Argyfwng a Lles Staff. |
| Cynllunio Gweithlu Strategol | Risg isel | Edrychodd ein hadolygiad ar Strategaeth Gweithlu a Chynllun Cyflawni Archwilio Cymru. Canfu'r adolygiad fod y Strategaeth yn cynnwys yr elfennau allweddol y byddem wedi disgwyl iddynt gael eu cynnwys, fodd bynnag, nodwyd dau ganfyddiad gennym. Amlygodd y cyntaf natur uchelgeisiol y Strategaeth, a'r amserlenni heriol yr oedd Archwilio Cymru wedi eu gosod iddi ei hun i gyflawni'r blaenoriaethau a bennwyd. Nododd yr ail y gallai Archwilio Cymru bennu ei chanlyniadau â rhagor o fanylder. |
| Lles y Staff | Risg ganolig | Edrychodd ein hadolygiad ar y trefniadau Lles sydd ar waith ar gyfer Archwilio Cymru a nodwyd bod y pwyslais ar Les wedi cynyddu mewn blaenoriaeth ers dechrau COVID-19. Mae heriau'n dal i fod yn amlwg o ran cydbwyso gofynion gwaith a lles. Roedd y prif ganfyddiadau'n ymwneud â diffyg polisïau a strategaethau lles ffurfiol i helpu i lywodraethu dull Archwilio Cymru yn y maes hwn. |

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Arsylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Rheolaethau Ariannol | Risg isel | Mae gan Archwilio Cymru ddull anffurfiol o ymdrin â'r cylch Prynu i Dalu, gyda nifer o reolaethau allweddol yn cael eu gweithredu. Mewn rhai achosion, nid oedd rheolaethau yr oeddem yn disgwyl eu gweld wedi eu gweithredu (megis paru 3 ffordd a chyfyngiadau yn y system sy'n atal anfonebau rhag cael eu gwneud i gyfateb â gorchmynion prynu) ar waith. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchiad o gyfyngiadau'r system yn Archwilio Cymru, ond hefyd ar faint a natur swyddogaeth Prynu i Dalu Archwilio Cymru: nifer cymharol isel o bryniannau sy'n digwydd o'i gymharu â sefydliadau eraill. |
| Mapio Sicrwydd | Risg isel | Asesodd yr adolygiad hwn y trefniadau mapio sicrwydd yn Archwilio Cymru ar ffurf ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi ffynonellau sicrwydd presennol a bylchau o'u cymharu â 'meysydd sicrwydd' ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd yn rheolaidd. Nododd ein hadolygiad un canfyddiad risg ganolig sef y byddai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn elwa ar gael ei adnewyddu, a diweddeb adolygiad blynyddol cryfach. Nododd canfyddiadau eraill y byddai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn elwa ar gael ei gysoni'n well â meysydd risgiau strategol; dull mwy cadarn o bennu gofynion sicrwydd; a chanllawiau sefydlog gwell. |

163 Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2020-21, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol:

'Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth mewn cysylltiad â meysydd sy'n bwysig i'r busnes yn foddhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir rhai gwendidau a/neu ddiffyg cydymffurfio yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth a allai achosi risg o ran cyflawni amcanion. Mae angen rhai gwelliannau yn y meysydd hynny i wella digonolrwydd a/neu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.'

## Parodrwydd i dderbyn risg a'i rheoli

164 Rydym wedi ymrwymo i gymhwyso'r egwyddorion arferion gorau y gellir eu gweld yn Orange Book Llywodraeth y DU ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau'n gosteffeithiol.

165 O ystyried natur ein busnes, mae ein goddefgarwch o risg ym meysydd barn archwilio proffesiynol, rheoleidd-dra, priodoldeb a rheolaeth ariannol yn isel. Mewn meysydd eraill, megis mewn cysylltiad â chyfnewid arferion da ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn rhagor o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i ddilyn ein huchelgeisiau.

166 Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu 12 maes sicrwydd fel fframwaith ar gyfer strwythuro map sicrwydd sy'n crynhoi rheolaethau a ffynonellau sicrwydd presennol ac sy'n amlygu unrhyw fylchau o'u cymharu â diwallu anghenion y Bwrdd. Ar gyfer pob maes sicrwydd, mae'r Bwrdd wedi diffinio'n fras ei barodrwydd i dderbyn risg gan ddefnyddio'r dosbarthiadau a argymhellir yn Risk Appetite Guidance Note Llywodraeth y DU ac o bryd i'w gilydd mae'n ystyried i ba raddau y mae'r rheolaethau presennol yn cyd-fynd â'r parodrwydd hwnnw.

| Maes sicrwydd | Parodrwydd i dderbyn risg |
|---|---|
| Cyfeiriad strategol | Agored |
| Llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant | Pwyllog |
| Model/dull gweithredu o ddefnyddio adnoddau | Agored |
| Perthnasoedd ac enw da rhanddeiliaid allanol | Pwyllog |
| Strategaeth gweithlu a phobl | Agored |
| Strategaeth wybodaeth | Pwyllog |
| Stiwardiaeth asedau ffisegol a TGCh | Pwyllog |
| Effeithiolrwydd systemau busnes | Agored |
| Trefniadau diogelu | Andwyol |
| Sicrhau gwerth am arian yn ein defnydd o adnoddau | Pwyllog |
| Trefniadau ar gyfer monitro swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a arferir | Pwyllog |
| Newid y ddarpariaeth | Agored |

## Rheoli risgiau a'r fframwaith rheolaeth

167 Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risgiau ac mae'n derbyn ac yn ystyried cofrestr risgiau strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i broffil risgiau'r sefydliad ym mhob un o'i gyfarfodydd.

168 Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys adolygu a chynghori'r Bwrdd ar:

a ei strategaeth risgiau, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei pharodrwydd i dderbyn risg;

b prosesau asesu risgiau cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio gwaith gwneud penderfyniadau y gweithredwyr;

c gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risgiau;

ch cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risgiau; ac

d ymatebolrwydd y rheolwyr i asesiadau risg.

169 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn gyfrifol am gymeradwyo a goruchwylio'r gwaith o weithredu ein polisi rheoli risgiau ac am gytuno ar unrhyw adnoddau sydd eu hangen i gefnogi hyn yn gorfforaethol, am asesu a rheoli risgiau strategol, ac am adolygu'r gofrestr risgiau gweithredol bob chwe mis.

170 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol ac fe'i cefnogir i wneud hynny gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

## Asesiad risg

171 Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2020-21, ystyriodd y Bwrdd grynodeb o'r risgiau strategol allweddol a wynebir gan y sefydliad, ochr yn ochr ag adroddiad cofrestr risgiau strategol rhyngweithiol manylach a wnaeth y canlynol:

- a darparu asesiad o'r lefelau cynhenid o risg a neilltuo targedau risg;
- b disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru'r tebygolrwydd o risg ac effeithio ar dargedau, gan eu cyflawni nhw;
- c darparu asesiad o'r lefelau risg gweddilliol;
- ch nodi symudiadau risg a thynnu sylw at newidiadau a wnaed i'r rheolaethau lliniaru ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd; ac
- d crynhoi cynnwys y gofrestr trwy broffiliau a mapiau gwres risgiau cynhenid a gweddilliol.

172 Ar 4 Mai 2020, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod a gynullwyd yn arbennig a fu'n canolbwyntio ar:

- a cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ymateb y rheolwyr i argyfwng COVID-19.
- b cael gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau ar gyfer cyflawni Cynllun Blynyddol 2020-21 a'r sefyllfa ariannol.
- c cynnal adolygiad o'r ychwanegiadau cysylltiedig i'r gofrestr risgiau strategol.

173 Bu nifer o risgiau strategol allweddol yn codi a gostwng yn ystod y flwyddyn ac yn ymgysylltu'n enwedig ag amser y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig ag:

- a parhad busnes yr effeithir arno gan ledaeniad feirws COVID-19 ymhlith poblogaeth y DU, gan gynnwys cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru a'u dibynyddion.
- b rhoi rhagor o ddibyniaeth ar gadernid ein TG a'n cadernid technegol, a sut mae'r rhain yn effeithio ar ein gallu i gael gafael ar wybodaeth gan ddefnyddio hawliau mynediad statudol yr Archwilydd Cyffredinol.
- c gwaith archwilio nad yw'n cael ei gyflawni mewn pryd, o fewn y gyllideb ac i'r safonau ansawdd gofynnol oherwydd gweithio o bell a newidiadau eraill yn ein hamgylchedd gweithredu.
- ch methu â sicrhau digon o incwm ffioedd, arian parod, a llai o wariant i weithredu o fewn ein Hamcangyfrif cymeradwy ar gyfer 2020-21.
- d ailstrwythuro'r uwch-dîm gweithredol yn ffurfiol a oedd yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth y sefydliad neu a oedd â'r gallu i arwain at golli ei enw da.

174 Rwyf yn fodlon bod y risgiau hyn, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i argyfwng COVID-19, wedi eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn. Yn ein Hadroddiad Interim a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, darparwyd diweddariad manwl i'r cyhoedd gennym ynghylch y newidiadau a wnaethom i'n Cynllun Blynyddol mewn ymateb i'r sefyllfa a oedd yn datblygu'n gyflym.

175 Yn 2020-21, parhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyflawni'r swyddogaeth o graffu ar y map sicrwydd a'r cofrestrau risg strategol a gweithredol, gan gynnwys trwy brofi risgiau a rheolaethau unigol, er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau rheoli risgiau yn gadarn yn gyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos yr ymddengys fod trefniadau rheoli risgiau Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu'n effeithiol.

176 Cafodd nifer o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu oddi ar y gofrestr risgiau strategol yn ystod 2020-21. Roedd y risgiau naill ai wedi eu cau'n llwyr neu wedi eu rhoi ar y gofrestr risgiau gweithredol er mwyn eu rheoli'n barhaus gan yr arweinydd risgiau perthnasol.

177 Rydym hefyd yn wynebu nifer o risgiau sydd newydd eu nodi wrth inni symud ymlaen i 2020-21, ac adlewyrchir y rhain yn ein cofrestr risgiau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig ag:

a ein rhaglen archwilio dewisol sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar yr hyn sydd bwysicaf a bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gyrff archwiliedig wrth iddynt ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

b effeithiau gwneud newidiadau angenrheidiol i gynllun teithio a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru.


c mae cynigion y Canghellor ar gyfer oedi cyflogau'r sector cyhoeddus yn effeithio ar recriwtio, cadw a morâl y staff.

ch sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol gyda Phwyllgorau newydd y Senedd yn dilyn etholiadau mis Mai 2021.

178 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, y bydd camau priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw lle bo gwendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

### Proffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru

179 Darperir crynodeb o broffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru ar 10 Mehefin 2021 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n amlygu nifer y risgiau strategol a'r lefelau risg gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.




## Llywodraethu gwybodaeth

180 Gan fy mod yn Archwilydd Cyffredinol, mae gennyf fynediad eang at wybodaeth fel y gallaf gyflawni fy swyddogaethau archwilio. Mae'r hawliau mynediad statudol pwerus hyn yn dod â chyfrifoldeb gyda nhw i sicrhau bod yr wybodaeth a gaf i, ac y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei chael, yn cael ei diogelu'n briodol.

181 Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n nodi rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac sy'n egluro sut y gall staff gael cymorth ac arweiniad ychwanegol.

## Diogelu data

182 Mae diogelu data personol yn arbennig o bwysig, ac yn ystod y flwyddyn, mae'r sefydliad wedi parhau i weithio er mwyn sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

a darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data i staff ar draws y sefydliad.

b sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw am yr wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y gwaith prosesu, y sail gyfreithiol dros brosesu, y manylion cadw data yn ogystal â manylion y mesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

c mynd i'r afael â materion cydymffurfio a nodir gan raglen fonitro y Swyddog Diogelu Data.

d cynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd ar brosesau newydd er mwyn casglu a dadansoddi data, gan gynnwys, er enghraifft, cynigion newydd ar gyfer gwaith paru data.

183 Yn fy swyddogaeth o fod yn Brif Weithredwr, rwyf yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â bod yn rheolwr data fy hun yn rhinwedd fy swydd o fod yr Archwilydd Cyffredinol. Rwyf wedi dirprwyo'r ddwy swyddogaeth i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol.

184 Rydym yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis mynediad at wybodaeth heb awdurdod neu golli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mae pob digwyddiad yn ystod y flwyddyn wedi bod o natur fach ac nid ydym wedi gwneud unrhyw adroddiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rydym yn annog staff i adrodd cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o doriad ac yn parhau i weithio i wella ein prosesau mewnol a chryfhau ein diogelwch technegol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau posibl.

### Bod yn agored ac yn dryloyw

185 Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd yr ydym yn gweithredu fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

186 Ym mlwyddyn ariannol 2020-21, cawsom 35 o geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys 4 cais gan unigolion a oedd yn arfer eu hawliau mynediad gan y testun o dan gyfreithiau diogelu data. Gwnaethom fodloni'r dyddiad cau statudol o 20 diwrnod gwaith ar gyfer y 31 cais a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ar gyfer 3 o'r ceisiadau mynediad at ddata gan y testun. Ar gyfer y cais sy'n weddill, gohiriwyd yr ymateb oherwydd maint a chymhlethdod y deunydd dan sylw, ynghyd â chyfyngiadau adnoddau a heriau gweithio o bell[45].

187 Nid oeddem yn ddarostyngedig i unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2020-21 o ran ein ffordd o ymdrin â cheisiadau.

## Chwythu'r chwiban (mewnol)

188 Anogir holl staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi materion sy'n peri pryder am gamweddau sy'n dod i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae'r Bwrdd o'r farn bod nodi camweddau'n fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risgiau corfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

189 Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r dull ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n berthnasol i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw swydd.

190 Yn 2020-21, cawsom un achos o ddatgeliad o faterion a oedd yn peri pryder, ac roedd yn ymddangos bod agweddau ar hwn yn bodloni meini prawf datgeliad a ddiogelir. Nid yw ein hymchwiliad i'r achos wedi ei gwblhau hyd yn hyn, felly mae'n rhy gynnar i nodi sylwadau ar ganlyniadau'r gwaith hwn.

191 Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu'r chwiban, rydym yn ystyried hyder staff yn y trefniadau, a'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu o ddatgeliadau blaenorol.

45 Fe'n gohiriwyd wrth ymateb i ddau gais Rhyddid Gwybodaeth, ac un cais mynediad at ddata gan y testun o'r flwyddyn ariannol flaenorol am resymau tebyg.

192 Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gofynnwyd i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2020 (yr ymatebodd 90% o'r staff iddo), ystyried eu hymateb i'r datganiad canlynol ar raddfa cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf: 'Rwyf yn hyderus, pe bawn yn mynegi pryder o dan drefniadau chwythu'r chwiban fy sefydliad, y byddai'n cael ei ymchwilio'n iawn.' Atebodd 79 y cant o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno' ar y cwestiwn hwn, gyda 14% arall yn ymateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (yn arolwg Hydref 2019, y ffigurau cyfatebol oedd 78% ac 17% yn y drefn honno). Er bod y canlyniad hwn yn dangos hyder helaeth parhaus yn y trefniadau, mae'n awgrymu angen parhaus am waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hynny ac yn hyderus ynddynt.

193 Er bod staff yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac o bell ar gyfer y rhan fwyaf o 2020-21 oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig, gwnaethom barhau i flaenoriaethu codi ymwybyddiaeth ar gyfer ein trefniadau chwythu'r chwiban yn ein rhaglenni gloywi a hyfforddiant cychwynnol newydd.

# Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

## Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

194 Caiff cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ei bennu gan y Senedd, ac yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fe'i telir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. I sicrhau tryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol hwn. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

195 Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan y Frenhines a dechreuodd y swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu.

**Costau cyflog a phensiwn yr Archwilydd Cyffredinol**

| | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr |
| | £ | £ | £ | £ |
| Adrian Crompton | 150,000 | 45,450 | 147,570 | 44,714 |

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

196 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Senedd, dau aelod etholedig sy’n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol a’i aelod enwebedig sy’n gyflogai, sef Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

197 Mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn amhensiynadwy ac fe’i pennir gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, telir y gost yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. I sicrhau mwy o dryloywder, datgelir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd yn yr adroddiad hwn.

198 Penodwyd y ddau aelod etholedig sy’n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais staff, ym mis Mehefin 2018. Pennir y lwfans y maent yn ei dderbyn am eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd ac fe’i datgelir yn yr adroddiad hwn.

199 Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn derbyn unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd.

**Mae'r wybodaeth ar dudalennau 87 i 97 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad.**

## Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth[46] | | Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21** | **2019-20** | **2020-21** | **2019-20** | **2020-21** | **2019-20** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth** | | | | | | |
| Lindsay Foyster[47] (Cadeirydd) | 18,212 | 12,500 | - | 708 | 18,212 | 13,208 |
| David Francis | 12,500 | 12,534[48] | - | 350 | 12,500 | 12,884 |
| Alison Gerrard | 12,500 | 12,500 | 33 | 1,432 | 12,533 | 13,932 |
| Elinor Gwynn[49] | 6,250 | - | - | - | 6,250 | - |
| Ian Rees[50] | 5,712 | - | - | - | 5,712 | - |
| Anne Beegan[51] | 4,167 | 4,167 | - | – | 4,167 | 4,167 |
| Amanda Hughes[50] | 4,167 | 4,167 | – | - | 4,167 | 4,167 |
| **Aelodau blaenorol y Bwrdd** | | | | | | |
| Isobel Everett (Cyn-gadeirydd)[52] | 13,575 | 25,000 | - | 5,067 | 13,575 | 30,067 |
| Bill Richardson[53] | 6,250 | 12,500 | - | 3,652 | 6,250 | 16,152 |
| **Cyfanswm** | **83,333** | **83,368** | **33** | **11,209** | **83,366** | **94,577** |

46 Gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau pwyllgor anweithredol hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer materion yn ymwneud ag Archwilio Cymru. Telir atebolrwydd treth personol y treuliau hyn gan Archwilio Cymru.

47 Penodwyd Lindsay Foyster yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ar 17 Hydref 2020. Talwyd ei chydnabyddiaeth ariannol fel aelod o'r Bwrdd (£6,787) gan Archwilio Cymru. Talwyd ei chydnabyddiaeth ariannol fel Cadeirydd (£11,425) yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

48 Yn cynnwys addasiad o ran 2018-19.

49 Penodwyd Elinor Gwynn i'r Bwrdd ar 1 Hydref 2020.

50 Penodwyd Ian Rees i'r Bwrdd ar 17 Hydref 2020.

51 Mae Anne Beegan ac Amanda Hughes yn aelodau o'r Bwrdd sy'n gyflogeion. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau fel aelodau o'r Bwrdd yn unig.

52 Daeth cyfnod Isobel Everett yn swydd y Cadeirydd i ben ar 16 Hydref 2020.

53 Ymddiswyddodd Bill Richardson o'r Bwrdd ar 30 Medi 2020.

## Aelodau pwyllgor anweithredol

200 Penododd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth | | Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 | 2020-21 | 2019-20 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Dianne Thomas | 5,000 | 5,000 | - | 700 | 5,000 | 5,700 |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **5,000** | **-** | **700** | **5,000** | **5,700** |

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

201 Mae polisi tâl Swyddfa Archwilio Cymru a manylion ystodau tâl i'r holl staff ar gael ar ein gwefan.

202 Cyflogir holl aelodau'r staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar sail y fath delerau ac amodau y mae'r Bwrdd yn eu pennu. Mae cydnabyddiaeth ariannol holl aelodau'r staff yn destun adolygiad cyfnodol o dan strategaethau a bennir gan y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag undebau llafur o dan y cydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

203 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru fel rheol yn cynnal penodiadau sy'n benagored, oni bai eu bod ar gontractau tymor penodol. Byddai terfyniad cynnar, ac eithrio ar sail camymddwyn, yn arwain i'r unigolyn dderbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

204 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud taliadau bonws yn gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau staff, ond mae ganddi drefniadau arfarnu perfformiad sy'n gohirio cynnydd i gyflog os na fydd perfformiad yn ddigon boddhaol.

205 Yn ystod 2020-21, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-aelodau staff y byddai wedi bod yn rhaid datgelu eu cydnabyddiaeth ariannol. (2019-20: Dim).

## Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol i uwch reolwyr

206 Darperir manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sy'n Gyfarwyddwyr yn y tabl canlynol. Mae aelodau sy'n gyflogeion yn mynychu ar sail gylchol, nid ydynt yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am y dyletswyddau hyn ac nid yw aelodaeth o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn rhan sylweddol o'u swydd, ac felly ni ddatgelir eu cyflogau yma.

**Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021**

| | Cyflog[54] | Treuliau Trethadwy[55] | Budd Pensiwn[56] | Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol |
|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | I'r £1,000 agosaf | Bandiau o £5,000 |
| Aelodau presennol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol | | | | |
| Kevin Thomas | 120-125 | 1,400 | 53 | 175-180 |
| Ann-Marie Harkin[57] | 95-100 | - | 56 | 150-155 |
| Anne-Louise Clark[58] | 10-15 | - | 5 | 15-20 |
| Aelodau blaenorol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol | | | | |
| Anthony Barrett[59] | 60-65 | - | 27 | 85-90 |
| Mike Usher[60] | 50-55 | - | 28 | 80-85 |
| Steve O'Donoghue[61] | 85-90 | - | 81 | 170-175 |

54 Yn cynnwys cyflog gros a lwfans teithio. Talwyd lwfans teithio i Anthony Barrett (£1,675), Kevin Thomas (£837) ac Ann-Marie Harkin (£3,071).

55 Sef gwerth yn cynnwys treth taliadau ar gyfer teithio i brif weithle

56 Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol i'r pensiwn wedi'i luosi gydag 20. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddiad o hawliau pensiwn.

57 Penodwyd Ann-Marie Harkin yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ar 1 Mawrth 2021. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a oedd yn Gyfarwyddwr.

58 Ymunodd Anne-Louise Clark ag Archwilio Cymru ar 15 Chwefror 2021 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 95-100)

59 Gadawodd Anthony Barrett Archwilio Cymru ym mis Medi 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 120-125). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelir uchod, derbyniodd iawndal ymadawiad gwirfoddol o £178,449.

60 Gadawodd Mike Usher Archwilio Cymru ym mis Medi 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 105-110). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelir uchod, derbyniodd iawndal ymadawiad gwirfoddol o £140,000.

61 Gadawodd Steve O'Donoghue Archwilio Cymru ym mis Chwefror 2020 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 100-105).

| | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog** | **Treuliau Trethadwy** | **Budd Pensiwn** | **Un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 120-125 | 600 | 53 | 175-180 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 14,800 | 54 | 190-195 |
| Mike Usher | 105-110 | – | 32 | 135-140 |
| Steve O'Donoghue | 95-100 | – | 66 | 160-165 |
| Ann-Marie Harkin[62] | 70-75 | – | 15 | 85-90 |
| Jane Holownia (0.8FTE)[63] | 20-25 | – | 53 | 75-80 |

207 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ar ein gwefan.

62 Penodwyd Ann-Marie Harkin i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ym mis Gorffennaf 2019 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 90-95). Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn daladwy ar gyfer ei swydd yn y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn 2019-20.

63 Gadawodd Jane Holownia Archwilio Cymru o dan gytundeb ymadawiad gwirfoddol ddiwedd mis Mehefin 2019 (cyflog rhan-amser cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod 95-100). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelir uchod, derbyniodd daliad iawndal ymadawiad gwirfoddol o £161,333.

### Hawliau pensiwn aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

208 Fel yr holl staff, mae gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol fynediad at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae manylion y cynllun hwn ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

209 Nodir manylion hawliau pensiwn i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol isod.

| | Pensiwn cronnus ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2021<br>£'000 | Cynnydd gwirioneddol i bensiwn ar oedran pensiwn<br>£'000 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2021<br>£'000 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Cynnydd Gwirioneddol i Werth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Kevin Thomas | 65-70 | 2.5-5 | 1,151 | 1,079 | 32 |
| Ann-Marie Harkin | 35-40 a chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 796 | 726 | 42 |
| Anne-Louise Clark | 0-5 | 0-2.5 | 4 | 0 | 3 |
| Anthony Barrett | 55-60 | 0-.25 | 1,041 | 990 | 18 |
| Mike Usher | 50-55 a chyfandaliad o 110-115 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 975 | 927 | 19 |
| Steve O'Donoghue | 50-55 | 2.5-5 | 817 | 754 | 54 |

## Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

210 Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth wedi’i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y gwerthoedd sy’n cael eu prisio yw buddion cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol sy’n daladwy o’r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol yw Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â buddion y mae’r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i’w haelodaeth gyflawn o’r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae’r datgeliad yn berthnasol iddi yn unig.

211 Mae’r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi’i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i’r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy’n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol i Werth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

212 Mae hwn yn adlewyrchu’r cynnydd i Werth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd i bensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgeliad cyflog teg

213 Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn Archwilio Cymru a chanolrif cydnabyddiaeth ariannol ein gweithlu.

214 Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a lwfans teithio. Mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy yn achos y Cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, taliadau diswyddo na Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod pensiynau.

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (£'000) | 120-125 | 135-140 |
| Canolrif cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn | £46,780 | £45,569 |
| Ystod cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol | £18,726[64] -£124,709 | £16,381-£137,473 |
| Cymhareb y gydnabyddiaeth ariannol | 2.67 | 3.02 |

215 Yn 2020-21, ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion unrhyw gydnabyddiaeth ariannol fwy na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2019-20: dim).

216 I sicrhau tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol o £150,000 (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) yn 3.21 gwaith canolrif cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Archwilio Cymru (2019-20: £147,570, cymhareb: 3.24).

## Gwaith oddi ar y gyflogres

217 Nid oedd gennym unrhyw gontractau yn ystod 2020-21 a oedd yn cyd-fynd â diffiniad Trysorlys EM o waith oddi ar y gyflogres (2019-20: dim)[65].

64 Lleoliad gwaith.
65 Ddim yn destun archwiliad.

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar, a diswyddiadau

218 Gweithredir trefniadau diswyddiad gwirfoddol yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a gofynion cynllunio’r gweithlu.

219 Ystyrir ceisiadau i ymadael yn wirfoddol gan ddefnyddio templed achos busnes sy’n sgorio ad-daliad rhagweledig, gofynion gweithlu yn y dyfodol ac unrhyw risgiau parhad busnes posibl. Caiff achosion busnes eu hystyried a’u llunio gan y Tîm Cyfarwyddwyr cyn penderfyniad gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Mae ceisiadau gan uwch gyfarwyddwyr, ac unrhyw geisiadau a gynigir ar gyfer cymeradwyaeth â chost o £95,000 neu fwy, yn destun craffu pellach gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a chymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd.

220 £430,012 oedd cost y cynllun yn 2020-21 (2019-20: £638,687). O 2019-20 mae’r gost hon yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer taliadau dros £30,000.

221 Bydd yr ymadawiadau a gytunwyd yn darparu arbedion amcangyfrifedig o £125,000[66] y flwyddyn (2019-20: £322,000). Bydd ad-daliad yn cael ei sicrhau o fewn dau fis ar hugain o gymryd oediadau wrth recriwtio i swyddi newydd i ystyriaeth.

222 Yn ystod 2020-21, cytunodd wyth o gyflogeion (2019-20: naw) becynnau ymadael a gytunwyd fel y nodir isod.

223 Ymddeolodd un aelod o staff yn gynnar am resymau iechyd yn ystod y flwyddyn (2019-20: dim).

224 Nid oedd unrhyw achosion o ddileu swydd gorfodol yn 2020-21 (2019-20: dim).

| | Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|
| | **2020-21** | **2019-20** |
| Llai na £25,000 | 2 | 3 |
| £25,001-£50,000 | 2 | 2 |
| £50,001-£100,000 | 4 | 2 |
| £100,001-£150,000 | - | 1 |
| £150,001-£200,000 | - | 1 |
| **Cyfanswm** | **8** | **9** |

66 Ddim yn destun archwiliad.

# Adroddiad staff

## Arweinyddiaeth uwch

225 Mae’r tabl canlynol yn nodi manylion nifer y staff uwch yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2021.

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| Band A (£98,664-£122,275) | 3 | 2 |
| Band B (£84,659-£109,291) | - | 2 |
| Band C (£75,418-£93,890) | 6 | 7 |
| **Cyfanswm** | **9** | **11** |

## Niferoedd staff

226 Cynyddodd y nifer gyfartalog o staff Archwilio Cymru a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn un rhan o dair gan adlewyrchu’r trosglwyddiad rhannol o waith a wnaed gan gwmnïau contractwyr yn y gorffennol. O fis Ebrill 2021, bydd yr holl waith archwilio yn cael ei wneud gan staff Archwilio Cymru.

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Nifer gyfartalog o staff cyfwerth ag amser llawn, wedi’u lleoli yn y DU, parhaol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 200 | 195 |
| Nifer gyfartalog o staff cyfwerth ag amser llawn, wedi’u lleoli yn y DU, ar gontractau tymor penodol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn | 63 | 62 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer gyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn) | 3 | 6 |
| **Cyfanswm** | **266** | **263** |

## Costau staff a chysylltiedig

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau staff | 11,866 | 11,477 |
| Staff a secondiwyd i mewn | - | 74 |
| Staff contract byrdymor | 111 | 242 |
| Cydnabyddiaeth ariannol pwyllgorau anweithredol | 63 | 63 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,354 | 1,356 |
| Costau pensiwn (Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil) | 3,130 | 3,097 |
| Costau pensiwn (pensiynau rhanddeiliaid) | 40 | 49 |
| | **16,564** | **16,358** |
| Lwfans teithio | 642 | 638 |
| Tanysgrifiadau[67] | 66 | 83 |
| | **17,272** | **17,079** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 185 | 135 |
| | **17,457** | **17,214** |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliad cynnar, a diswyddiadau[68] | 124 | 888 |
| Heb arian a dderbyniwyd yng nghyswllt secondiadau tuag allan | (31) | (372) |
| | **17,550** | **17,730** |

## Gwasanaethau a brynwyd i mewn[69]

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 573 | 679 |
| Ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 242 | 222 |
| | **815** | **901** |

67 Ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol, profion llygaid a sgrinio iechyd.

68 Yn cynnwys taliadau yn ystod y flwyddyn a rhyddhad rhannol o ddarpariaeth a grëwyd yn 2019-20 (Gweler Nodyn 11).

69 Heb gynnwys TAW.

227 Mae’r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Yn 2020-21, roeddent hefyd yn cynnwys costau chwe-misol yn gysylltiedig â’r Fenter Atal Twyll Genedlaethol.[70]

228 Mae costau ymgynghori[71] yn cynnwys:

- £158,000 o ran taliadau i Swyddfa’r Cabinet ar gyfer costau yn gysylltiedig â’r Fenter Atal Twyll Genedlaethol.
- £30,000 ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio.

229 Yn 2019-20 a 2020-21, cynhaliodd ein harchwilwyr allanol adolygiad gwerth am arian o’n cynllun teithio. Gwariwyd £11,000 ar hwn yn 2020-21 ac mae wedi’i gynnwys mewn costau ymgynghori eraill. (2019-20: £24,000)

**Nid yw’r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 97 i 101 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn destun archwiliad**

**Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

230 Mae’n ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith o amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a’r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

231 Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â’r confensiynau a gyflwynir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy’n gwerthfawrogo amrywiaeth pob unigolyn, ein staff ein hunain a’r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith, ac rydym yn cefnogi yn llawn hawliau pobl i gael eu trin gydag urddas a pharch.

232 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a’n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol ar gyfer 2019-20 yn darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth fel materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2020-21 yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2021 a bydd hwn yn cynnwys manylion am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y flwyddyn.

70 Ddim yn destun archwiliad.

71 Ddim yn destun archwiliad.

233 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys namau) ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ar gyfer cyflogaeth, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig ar ddawn a gallu yn unig, yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

**Cyfansoddiad y staff (nifer y bobl a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2021)**

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 7 | 2 | 9 |
| Cyflogeion eraill | 115 | 145 | 260 |
| **Cyfanswm** | **122** | **147** | **269** |

**Absenoldeb salwch**

| | 2020-21 Diwrnodau | 2019-20 Diwrnodau |
|---|---|---|
| Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul aelod o staff | 6.1 | 5.8 |
| • Oherwydd absenoldeb byrdymor | 4.2 | 3.9 |
| • Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau > 21 diwrnod) | 1.9 | 1.9 |

234 Cynyddodd lefelau salwch staff rhyw fymryn bach yn ystod 2020-21 i ychydig yn uwch na'n targed o chwe diwrnod – a hyn er gwaethaf effaith pandemig COVID. Mae'r lefel salwch gyffredinol hon 1.9 diwrnod yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu[72].


235 I helpu ein cyflogeion i reoli eu hiechyd, mae gennym Sgrinio Iechyd[73], brechiadau blynyddol rhag y ffliw, Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, a rhaglen o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o lesiant ar waith.

236 Yn ystod 2020-21, gan gydnabod effaith y pandemig ar lesiant staff, cyflwynwyd cymorth llesiant ychwanegol gennym a phwysleisiwyd neges o 'hunan, teulu, gwaith' i'r holl staff.

72 Cymedr o 8.0 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn i'r sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Iechyd a Llesiant yn y Gwaith 2020 CIPD.

73 Gohiriwyd sgrinio iechyd yn 2020-21 oherwydd effaith pandemig COVID.


### Absenoldeb salwch staff 2017-18 i 2020-21




### Ein gweithlu

| | 2020-21 % | 2019-20 % |
|---|---|---|
| **Patrymau gweithio** | | |
| Cyflogeion rhan-amser fel canran o'r cyfanswm | 17.1 | 18.5 |
| • I ddynion | 0.9 | 0.8[74] |
| • I fenywod | 24.0 | 27.7 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 76.0 | 75.9[75] |
| **Trosiant** | | |
| Canran cyfradd trosiant staff blynyddol | 9.23 | 14.3 |

74 Ailddatganwyd i gywiro gwall yn 2019-20.
75 Ailddatganwyd i gywiro gwall yn 2019-20.




237 Mae cyfran y cyflogeion rhan-amser wedi lleihau 1.4% o'i chymharu â 2019-20.

238 I ddynion, mae cyfran y cyflogeion rhan-amser wedi cynyddu rhyw fymryn bach; ceir gostyngiad o 3.7% ar gyfer menywod. Gellir esbonio'r gostyngiad cyffredinol yn rhannol drwy'r hyblygrwydd ychwanegol sydd ar gael i staff sy'n gweithio gartref; yn benodol, arbedion amser sy'n gysylltiedig â chymudo a theithio yn ystod y diwrnod gwaith.

239 Mae canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol yn dal i fod fwy neu lai yr un fath ac mae wedi'i gyfansoddi yn bennaf o hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddi tymor penodol.

240 Mae ein cyfradd trosiant staff blynyddol yn 2020-21 wedi gostwng i 9.23%. Mae llawer o'n trosiant yn gysylltiedig â hyfforddeion graddedig a phrentisiaid a gyflogir ar gontractau tymor penodol yn dod i ben ac yn cael eu disodli gyda dechreuwyr newydd.

## Amser Cyfleuster Undebau Llafur

241 Mae polisi Swyddfa Archwilio Cymru ar amser Undebau Llafur yn ymrwymo i amser â thâl ar gyfer dyletswyddau undebau llafur sy'n gyfwerth â 0.6 o ddiwrnodau fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn[76].

242 Ar gyfer 2020-21, roedd hyn yn cyfateb i ddyraniad o 160 o ddiwrnodau ar gyfer gweithgareddau undebau llafur. Roedd yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn 2020-21 yn gyfwerth â 139.4 diwrnod.

243 Darperir data ar amser a chostau yn 2020-21 fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 isod.

### Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2020-21 | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---:|---:|
| 4 | 4.0 |

### Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---:|---:|
| 1-50% | 4 |

### Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

| | |
|---|---:|
| Cost amser cyfleuster | £53,073 |
| Cyfanswm y bil tâl | £16.488m |
| Canran o gyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.3% |

76 Yn seiliedig ar gyfartaledd o 266 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn.

# Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

## Crynodeb o alldro adnoddau 2020-21

**Mae'r wybodaeth ar dudalennau 102 i 106 yn destun archwiliad.**

244 Mae'r datganiad hwn yn darparu cymhariaeth o'r Amcangyfrif[77] ar gyfer 2020-21, fel y pleidleisiwyd gan y Senedd, ynghyd ac incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

**Crynodeb o alldro adnoddau 2020-21**

| | | Amcangyfrif 2020-21 | | | Alldro 2020-21 | | | | Alldro 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodyn | | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| SORO1 | Refeniw | 22,263 | (14,270) | 7,993 | 21,595 | (13,962) | 7,633 | (360) | 7,561 |
| SORO1 | Cyfalaf | 230 | – | 230 | 229 | - | 229 | (1) | 188 |
| SORO1 | Cyfanswm Adnoddau | 22,493 | (14,270) | 8,223 | 21,824 | (13,962) | 7,862 | (361) | 7,749 |
| SORO 2 | Gofyniad arian parod net | – | – | 8,443 | - | - | 7,173 | (1,270) | 7,982 |

77 Amcangyfrif Atodol 2020-21.

245 Yn deillio o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21:

- roedd cyfanswm yr alldro net ar adnoddau refeniw £360,000 yn llai na'r adnoddau net a gymeradwywyd o £7,993,000;
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £1,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd o £230,000; a
- dangosir bod balans yr arian parod a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru (£1,270,000) yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

246 Darperir esboniad o effeithlonrwydd costau yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb rheolaeth ariannol ar dudalen 49.

247 Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae dadansoddiad o'r incwm hwn wedi ei gynnwys yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

# Nodiadau i'r crynodeb o alldro adnoddau

## Nodyn SORO1: cysoni alldro adnoddau net i ofyniad arian parod net

| | 2020-21 | | | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Amrywiant | Alldro |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau refeniw | 7,993 | 7,633 | (360) | 7,561 |
| Adnoddau cyfalaf | 230 | 229 | (1) | 188 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant a cholled wrth waredu ased) | (280) | (283) | (3) | (261) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod: | | | | |
| • Cynnydd/(gostyngiad) i symiau derbyniadwy a gwaith ar y gweill | 500 | (866) | (906)[78] | 543 |
| • (Cynnydd)/gostyngiad i symiau taladwy ac incwm gohiriedig | | (3) | | 219 |
| • Gostyngiad/(cynnydd) i ddarpariaethau | | 463 | | (237) |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | – | - | - | (31) |
| **Cyfanswm y gofyniad arian parod net** | **8,443** | **7,173** | **(1,270)** | **7,982** |

## Nodyn SORO2: cysoni alldro adnoddau i wariant net

| | Alldro 2020-21 | Alldro 2019-20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm yr adnoddau refeniw | 7,633 | 7,561 |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | - | (31) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr** | **7,633** | **7,530** |

78 Mae amrywiant yn berthnasol i symudiadau net i gyfalaf gweithio o'i gymharu â'r Amcangyfrif.

## Nodyn SORO3: dadansoddiad o alldro adnoddau net 2019-20

| Alldro 2019-20 £'000 | | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm am amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Treuliau** | | | | |
| 16,420 | Costau staff | 16,645 | 16,317 | (328) | Yn cynnwys rhyddhad darpariaeth a roddwyd o'r neilltu yn 2019-20 ar gyfer costau posibl ailstrwythuro'r uwch dîm. |
| 377 | Staff contractwyr | 311 | 296 | (15) | |
| 1,083 | Teithio a chynhaliaeth | 1,200 | 665 | (535) | Mae costau yn ymwneud â lwfans teithio yn unig gan nad oedd y rhan fwyaf o'r staff yn gallu teithio oherwydd pandemig COVID. |
| 938 | Llety | 940 | 862 | (78) | Roedd ein swyddfeydd ar gau yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn yn unol â chanllawiau llywodraeth sy'n esbonio'r arbedion a waned ar gostau cyfleustodau. |
| 810 | Cwmnïau sector preifat (gan gynnwys TAW) | 598 | 684 | 86 | Aethpwyd i gostau ychwanegol oherwydd gweithio o bell. |
| 530 | Balans TAW anadferadwy | 500 | 461 | (39) | Yn gysylltiedig â llai o wariant ar gostau nad ydynt yn gysylltiedig â staff. |
| 408 | TGCh | 546 | 575 | 29 | Aethpwyd i gostau ychwanegol oherwydd gweithio o bell. |
| 295 | Trefniadau Llywodraethu | 300 | 295 | (5) | |
| 259 | Hyfforddiant allanol | 289 | 279 | (10) | |
| 219 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 180 | 138 | (42) | Llai o alw am gyngor cyfreithiol. |
| 105 | Cyfieithu dogfennau | 145 | 70 | (75) | Arbedion yn gysylltiedig â newidiadau i'r ffordd yr ydym yn adrodd ein gwaith. |
| 49 | Casglu data y Fenter Atal Twyll Genedlaethol | 130 | 158 | 28 | Ffioedd Swyddfa Cabinet uwch. |

| Alldro 2019-20 £'000 | | Amcangyfrif 2020-21 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm am amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| 843 | Costau eraill | 955 | 795 | (160) | Yn cynnwys arbedion yn gysylltiedig â newidiadau i arferion gweithio yn gysylltiedig â'r pandemig. |
| – | Targed arbedion 2020-21 | (476) | - | 476 | Arbedion a nodwyd ar draws penaethiaid cyllidebau eraill. |
| **22,336** | **Cyfanswm Treuliau** | **22,263** | **21,595** | **(668)** | |
| | **Incwm** | | | | |
| (13,556) | Ffioedd archwilio | (13,400) | (13,009) | 391 | Effaith pandemig COVID ar ein gallu i gyflawni gwaith archwilio er y bodlonwyd yr holl derfynau amser statudol. |
| (1,240) | Ffioedd ardystio grantiau | (870) | (913) | (43) | Arweinir y gwaith gan alw. |
| (10) | Incwm arall | - | (40) | (40) | Yn cynnwys incwm ffyrlo i staff contractwyr |
| 31 | Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | - | - | - | |
| **(14,775)** | **Cyfanswm incwm** | **(14,270)** | **(13,962)** | **308** | |
| **7,561** | **Adnoddau refeniw net** | **7,993** | **7,633** | **(360)** | |
| **188** | **Adnoddau cyfalaf** | **230** | **229** | **(1)** | |

248 Mae'r Senedd yn pleidleisio ar wariant ac incwm Swyddfa Archwilio Cymru a gyllidebir ar gyfer y dyfodol yn flynyddol.

249 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

250 Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion datgeladwy yn 2020-21 yn **Nodyn 14** i'r Datganiadau Ariannol.

# Adroddiad archwilwyr annibynnol i'r Senedd

**Barn ar y datganiadau ariannol**

251 Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Atodlen 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff y dywedir yn yr adroddiad ei bod wedi'i harchwilio.

252 Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2013.

253 Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig safbwynt gwir a theg o sefyllfa materion Swyddfa Archwilio ar 31 Mawrth 2021 ac o'i chost weithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyflwynwyd o dan Ddeddf Archwilio (Cymru) 2013.

**Barn rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol**

254 Rydym wedi gwneud gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 Deddf Archwilio (Cymru) 2013, i gael sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad hwn yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

255 Yn ein barn ni, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r gwariant y mae'r datganiad hwn yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- nad yw'r arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Sail i'r farn ar y datganiadau ariannol

256 Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny.

257 Rydym hefyd yn archwilio'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y dywedir yn yr adroddiad ei bod wedi'i harchwilio.

258 Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi cael gafael arni yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

## Sail ar gyfer y farn reoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

259 Mae'n ofynnol i ni gael gafael ar dystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac nad yw'r arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi gwneud ein gwaith yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 archwilio datganiadau ariannol cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn y cyswllt hwn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

260 Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu i baratoi'r datganiadau ariannol, yn briodol.

261 Ar sail y gwaith yr ydym wedi ei wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, achosi amheuaeth sylweddol o allu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis neu fwy o'r adeg pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyflwyno.

262 Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gysylltiedig â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

263 Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn eglur fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

264 Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac wrth wneud hynny ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi'i gam-ddatgan yn berthnasol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith yr ydym wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

265 Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

266 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyflwynwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

267 Fel yr esbonnir yn fwy llawn yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar **dudalen 63**, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cynnig safbwynt gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r cyfarwyddwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoad datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny trwy dwyll neu wall.

268 Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai fod y Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb barhau ei gweithrediadau.

269 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu a bod yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben neu ddibenion penodol, wedi'i wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

270 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

271 Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

### Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu datgelu afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll

272 Afreoleidd-dra yw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio briodol o gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sydd ag effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, i gynnal gweithdrefnau archwilio i helpu i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai fod ag effaith o bwys ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd neu a amheuwyd yn ystod yr archwiliad.

273 Yn gysylltiedig â thwyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gam-ddatgan perthnasol y datganiadau ariannol oherwydd twyll, cael gafael ar ddigon o dystiolaeth archwilio briodol o'r risgiau a aseswyd o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll trwy gynllunio a gweithredu ymatebion priodol, ac ymateb yn briodol i dwyll neu amheuaeth o dwyll a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

274 Fodd bynnag, cyfrifoldeb pennaf y rheolwyr, dan oruchwyliaeth y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau'r cyfreithiau a rheoliadau ac am atal a datgelu twyll.

275 Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan perthnasol o ran afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gwnaeth tîm ymgysylltu'r archwiliad y canlynol:

- ennyn dealltwriaeth o swyddogaeth Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu oddi mewn iddi a sut y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- gofyn i'r rheolwyr, a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, sut y maent yn nodi ac yn asesu risgiau afreolaidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu a honnir o dwyll;
- trafod materion ynghylch diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

276 O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn rydym o'r farn mai'r cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf perthnasol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw cyfarwyddyd Trysorlys EM a gyflwynir o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, sy'n cwmpasu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM 20/21), sy'n berthnasol i safonau adrodd ariannol rhyngwladol a fabwysiedir gan yr Undeb Ewropeaidd (IFRS). Gwnaethom gynnal y gweithdrefnau archwilio i ddatgelu diffyg cydymffurfio a allai fod ag effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol, ac roedd hyn yn cynnwys adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol.

277 Y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf perthnasol sy'n cael effaith anuniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i holi'r rheolwyr a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu a yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, arolygu cofnodion pwyllgorau ac adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol am unrhyw doriadau posibl.

278 Nododd tîm ymgysylltu yr archwiliad mai'r risg y byddai'r rheolwyr yn gwrthwneud y rheolaethau a'r gydnabyddiaeth refeniw yw'r meysydd lle'r oedd y datganiadau ariannol yn fwyaf agored i gamddatgan perthnasol yn sgil twyll. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yn cynnwys ond nid oeddynt yn gyfyngedig i brofi cofnodion yn y dyddlyfrau a wnaed â llaw ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes yn gysylltiedig â thrafodiadau anarferol, sylweddol a thrafodiadau a weithredwyd y tu hwnt i gwrs arferol busnes; asesu a herio'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr o ran eu dull o asesu a phennu canran y gwaith cytundebol sydd wedi ei gwblhau a digonolrwydd darpariaethau ar gyfer symiau anadferadwy, sy'n cynnwys adolygu a oedd digwyddiadau a fu hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr yn cefnogi meini prawf cydnabyddiaeth diwedd y flwyddyn a phrofi cywirdeb a dibynadwyedd y data y mae'r rheolwyr wedi dibynnu arnynt.

279 Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n hadroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am farn reoleidd-dra ar y datganiadau ariannol

280 9Rydym yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu a bod yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, wedi'i wario ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

### Defnydd o'n hadroddiad

281 Gwneir yr adroddiad hwn i Senedd Cymru yn unig, y mae wedi ei gyfeirio ati yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac at ddim diben arall. Gwnaed ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i'r Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddi mewn adroddiad archwilydd ac at ddim diben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb ar ran unrhyw un ac eithrio'r Senedd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y safbwyntiau yr ydym wedi eu ffurfio.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid RSM UK Audit LLP.

RSM UK Audit LLP
24 Mehefin 2020
Archwilwyr Statudol
Third Floor
One London Square
Cross Lanes
Guildford
GU1 1UN

# Datganiadau ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â nodiadau ategol ac esboniadol.

03

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff a chysylltiedig | Adroddiad Staff[79] | 17,550 | 17,730 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | Adroddiad Staff | 815 | 901 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,230 | 3,705 |
| | | **21,595** | **22,336** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm ffioedd archwilio | 1 | (13,922) | (14,796) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (40) | (10) |
| | | (13,962) | (14,806) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **7,633** | **7,530** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 120 i 138 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

282 Nid oedd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion neu golledion heb eu cydnabod.

79 Nodyn costau staff ar dudalen 96 yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

# Datganiad o’r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Note | 31 Mawrth 2021 £’000 | 31 Mawrth 2020 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 390 | 517 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 235 | 162 |
| | | **625** | **679** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill | 6 | 2,375 | 3,002 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 508 | 580 |
| Arian parod a phethau sy’n cyfateb i arian parod | 8 | 1,270 | 1,604 |
| | | **4,153** | **5,186** |
| **Cyfanswm asedau** | | **4,778** | **5,865** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (2,051) | (2,043) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (2,353) | (2,191) |
| Darpariaethau | 11 | (367) | (824) |
| Cronfa Gyfunol Cymru | SORO | (1,270) | (1,604) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,041)** | **(6,662)** |
| **Cyfanswm asedau heb rwymedigaethau cyfredol** | | **(1,263)** | **(797)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (646) | (652) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(646)** | **(652)** |
| **Cyfanswm asedau heb rwymedigaethau** | | **(1,909)** | **(1,449)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | **(1,909)** | **(1,449)** |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(1,909)** | **(1,449)** |

**Mae’r nodiadau sy’n dilyn ar dudalennau 120 i 138 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau **115 i 138** gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe’u hawdurdodwyd i’w cyhoeddi ar 10 Mehefin 2021 ac maent wedi’u llofnodi ar ei ran gan:



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

10 Mehefin 2021

# Datganiad o lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (7,633) | (7,530) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn rhai arian parod: dibrisiant, amorteiddiad a cholled ar waredu asedau | 3 | 283 | 261 |
| (Gostyngiad)/cynnydd i ddarpariaethau | 11 | (463) | 237 |
| **Newidiadau i gyfalaf gweithio** | | | |
| Gostyngiad / (cynnydd) i symiau masnach derbyniadwy, gwaith ar y gweill a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | 699 | (543) |
| Cynnydd/(gostyngiad) i symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 8 | (74) |
| Cynnydd/(gostyngiad) i incwm gohiriedig | 10 | 162 | (145) |
| **Llif arian parod allan net o weithgareddau gweithredu** | | **(6,944)** | **(7,794)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniannau eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (96) | (158) |
| Pryniannau asedau anniriaethol | 5 | (133) | (30) |
| **Llif arian parod allant net o weithgareddau buddsoddi** | | **(229)** | **(188)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 8,443 | 9,586 |
| Cronfa Gyfunol Cymru a ad-dalwyd | | (1,604) | (1,776) |
| **Cyllido net** | | **6,839** | **7,810** |
| **Symudiadau arian parod a phethau cyfatebol i arian parod** | | **(334)** | **(172)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 120 i 138 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **(1,901)** |
| Newidiadau i ecwiti trethdalwyr 2019-20 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,530) |
| Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 9,586 |
| | **155** |
| Dyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,604) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(1,449)** |
| Newidiadau i ecwiti trethdalwyr 2020-21 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,633) |
| Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru | 8,443 |
| | **(639)** |
| Dyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,270) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(1,909)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 120 i 138 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol

283 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol 2020-21 (FReM), a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

## Sail y paratoad

284 Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn defnyddio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y cyd-destun sector cyhoeddus.

285 Caiff datganiadau ariannol eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

286 Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

- mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol yn ôl statud. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu gwneud ar gael gan y Senedd (cyllid y pleidleisiwyd arno).
- mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn datgan bod yn rhaid i'r Senedd ystyried Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol a bod yn rhaid iddi gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gwneud os yw'n dymuno newid yr Amcangyfrif hwn.
- rhoddir sylw i unrhyw newidiadau heb eu cynllunio i incwm a gwariant mewn blwyddyn ariannol trwy Amcangyfrif Atodol y mae'n rhaid iddo gael ei ystyried gan y Senedd.

287 Er bod cyllid y pleidleisir arno wedi ei gymeradwyo ers naw mis yn unig ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn, bydd Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn ystod hydref y flwyddyn gyfredol.

288 Nid oedd yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru dalu treth gorfforaethol yn 2020-21.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd dyfarnu

Mae **cydnabyddiaeth refeniw** yn seiliedig ar amser a godwyd ar brosiectau wedi'i addasu pan fo'n berthnasol i adlewyrchu cam cwblhau'r gwaith a wnaed. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn i ystyried pa mor rhesymol yw incwm a gydnabuwyd gan gymryd cost cwblhau prosiectau archwilio i ystyriaeth.

Caiff incwm ei gydnabod fesul cam wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiadau archwilio gael eu bodloni dros amser.

Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn effeithio yn uniongyrchol ar y prisiad o incwm ffioedd archwilio (**Nodyn 1**), gwaith ar y gweill (**Nodyn 6**) ac incwm gohiriedig (**Nodyn 10**) yn y datganiadau ariannol hyn.

Caiff **darpariaethau** eu gwneud pan fo'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

Mae'r ddarpariaeth ddadfeiliadau yn cynrychioli amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth dalu am ei heiddo ar brydles ar ddiwedd y lesoedd.

Mae hyn wedi'i adeiladu i fyny trwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifir trwy ddefnyddio cyfradd ddadfeiliadau flynyddol ar gyfer arwynebedd llawr asedau ar brydles ynghyd â chostau amcangyfrifiedig adfer addasiadau a wnaed i eiddo ar brydles.

Gweler **Nodyn 11** am ragor o wybodaeth.

## Safonau cyfrifyddu newydd

289 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datgelu safonau cyfrifyddu nad ydynt wedi eu defnyddio eto ac yn asesu'r effaith bosibl y byddai defnydd cychwynnol yn ei chael ar y datganiadau ariannol.

290 Ceir un safon nad yw'n weithredol eto a fydd yn effeithio ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, sef Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 Lesoedd. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob les arwyddocaol gael ei gydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol i gynyddu amlygrwydd ymrwymiadau les ac adlewyrchu realiti economaidd yn well. Mae mabwysiadu'r safon hon gan y FReM wedi'i oedi tan 2022-23. Datgelir yr effaith ragweledig i Swyddfa Archwilio Cymru yn **Nodyn 12 – Lesoedd**.

### Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu

291 O 2020-21, rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn adrodd costau ar draws ein segmentau gweithredu. Dim ond ym mis Chwefror 2021 y daeth ein strwythur rheoli newydd o Wasanaethau Archwilio, Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfathrebu a Newid yn weithredol yn llawn, felly ar gyfer 2020-21 rydym wedi rhannu costau rhwng Gwasanaethau Archwilio a Chostau Corfforaethol.

292 Mae Gwasanaethau Archwilio yn cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r hen isadrannau Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad ynghyd â swyddogaethau cymorth uniongyrchol fel Datblygiad a Chanllawiau Archwilio.

293 Mae costau corfforaethol yn cynnwys costau staff uniongyrchol yr hen isadrannau Cyllid ac Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol. Maent hefyd yn cynnwys costau swyddfeydd a darpariaeth TGCh.

294 Ail-ddatganwyd adrodd segmentau ar gyfer 2019-20 i adlewyrchu'r newid hwn.

295 O 2021-22, byddwn yn dangos costau i'w priodoli a'u dyrannu lle na ellir priodoli costau yn uniongyrchol ar draws y tri segment gweithredu newydd ac yn ail-ddatgan 2020-21 yn unol â hynny.

**2020-21**

| | Gwasanaethau Archwilio £'000 | Costau Corfforaethol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio[80] | (13,922) | - | (13,922) |
| Incwm arall | (38) | (2) | (40) |
| Cyfanswm incwm | (13,960) | (2) | (13,962) |
| Costau staff | 14,713 | 2,837 | 17,550 |
| Costau nad ydynt yn rhai staff | 1,277 | 2,768 | 4,045 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,990 | 5,605 | 21,595 |
| Gwariant Net | 2,030 | 5,603 | 7,633 |

**2019-20 (Wedi'i ail-ddatgan)**

| | Gwasanaethau Archwilio £'000 | Costau Corfforaethol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio | (14,796) | - | (14,796) |
| Incwm arall | - | (10) | (10) |
| Cyfanswm incwm | (14,796) | (10) | (14,806) |
| Costau staff | 14,579 | 3,151 | 17,730 |
| Costau nad ydynt yn rhai staff | 1,394 | 3,212 | 4,606 |
| Cyfanswm Gwariant | 15,973 | 6,363 | 22,336 |
| Gwariant Net | 1,177 | 6,353 | 7,530 |

80 Gweler nodyn 1(b).

### Cysoni i'r Datganiad o Alldro Adnoddau

| | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwariant net yn ôl Nodyn 1 | 7,633 | 7,530 |
| Incwm sy'n fwy na'r Amcangyfrif | - | 31 |
| Adnoddau refeniw net | 7,633 | 7,561 |

### Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm ffioedd archwilio

| | 2020-21 | | | 2019-20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwiliad Llywodraeth Leol | (5,410) | (2,367) | (7,777) | (5,505) | (2,636) | (8,141) |
| Ardystiad Grant Llywodraeth Leol | (913) | - | (913) | (1,240) | - | (1,240) |
| Archwiliad GIG | (1,888) | (1,396) | (3,284) | (1,974) | (1,342) | (3,316) |
| Archwiliad Llywodraeth Ganolog | (1,948) | - | (1,948) | (2,099) | - | (2,099) |
| | (10,159) | (3,763) | (13,922) | (10,818) | (3,978) | (14,796) |

296 Caiff ffioedd a godir am waith archwilio eu pennu yn unol â Chynllun Ffioedd a gytunwyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

297 Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall ar werth gwaith y codir amdano heb TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu trwy gyfeirio at daliadau amser a chamau cwblhau prosiectau. Mae i waith archwilio un rhwymedigaeth perfformiad a fodlonir dros amser ac mae hawl gan Swyddfa Archwilio Cymru i adennill costau gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn ar unrhyw gam o'r archwiliad.

298 Caiff incwm gweithredu ei gredydu i'r flwyddyn cyfrifyddu y gwnaed y gwaith yn ei hystod. Caiff anfonebau a gyflwynir cyn gwneud y gwaith eu dosbarthu fel incwm gohiriedig (gweler **Nodyn 10**). Caiff gwaith a wneir cyn derbyn incwm ei ddosbarthu fel gwaith ar y gweill (gweler **Nodyn 6**).

299 Nid yw cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn grant llywodraeth uniongyrchol a chaiff ei gredydu yn uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall[81] | (40) | (10) |
| | (40) | (10) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu arall

| | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llety | | |
| • Costau les rhent | 457 | 492 |
| • Costau llety eraill | 405 | 446 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau[82] | 1,539 | 1,641 |
| Recriwtio | 103 | 33 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad[83] | 283 | 258 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| • Gwasanaethau archwilio mewnol | 42 | 42 |
| • Gwasanaethau archwilio allanol | 45 | 47 |
| • Ffioedd proffesiynol eraill | 54 | 46 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 23 | 445 |
| Dysgu a datblygu staff | 279 | 255 |
| | **3,230** | **3,705** |

81 Yn cynnwys incwm y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) ar gyfer staff contract tymhorol, taliadau am gyngor a ddarparwyd, ad-daliadau ac ailgodi am gostau hyfforddi.

82 Yn cynnwys TAW anadferadwy. Mae'r holl gyfansymiau eraill yn y nodyn hwn yn net o TAW.

83 Yn cynnwys colled o £5,000 ar waredu asedau.

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn a gosodiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **2020-21** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,339 | 674 | 160 | 2,173 |
| Ychwanegiadau | 14 | 82 | - | 96 |
| Gwarediadau | (8) | - | - | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 1,345 | 756 | 160 | 2,261 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,096 | 477 | 83 | 1,656 |
| Darparwyd yn y cyfnod | 70 | 129 | 24 | 223 |
| Gwarediadau | (8) | - | - | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 1,158 | 606 | 107 | 1,871 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 187 | 150 | 53 | 390 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 243 | 197 | 77 | 517 |
| **Cyllido asedau** | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 187 | 150 | 53 | 390 |

| | Dodrefn a gosodiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2019-20** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,336 | 611 | 169 | 2,116 |
| Ychwanegiadau | 26 | 63 | 69 | 158 |
| Gwarediadau | (23) | – | (78) | (101) |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,339 | 674 | 160 | 2,173 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,049 | 359 | 136 | 1,544 |
| Darparwyd yn y cyfnod | 67 | 118 | 25 | 210 |
| Gwarediadau | (20) | – | (78) | (98) |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,096 | 477 | 83 | 1,656 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 243 | 197 | 77 | 517 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 287 | 252 | 33 | 572 |
| **Cyllido asedau** | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 243 | 197 | 77 | 517 |

300 Caiff gwariant dros £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, ailwampio swyddfeydd ac offer arall ei gyfalafu. Caiff gwariant dilynol ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf ei gyfalafu ymhellach. Caiff gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn ei drin fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

301 Darperir dibrisiant ar yr holl asedau cyfalaf o’r dyddiad y mae’r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol. Cyfrifir hwn i ddileu’r gost mewn rhandaliadau blynyddol cyfartal ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, gosodiadau, a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu’r byrraf o oes yr ased neu hyd les ar gyfer gosodiadau mewn adeiladau ar brydles) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

302 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd cyfredol ac ar eu cost wedi’i dibrisio. Cynhelir asesiad blynyddol o amhariad i gadarnhau bod hyn yn dal i fod yn wir.

**Nodyn 5: Asedau anniriaethol[84]**

| | **£’000** |
|---|---:|
| **2020-21** | |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 572 |
| Ychwanegiadau | 133 |
| Gwarediadau | (19) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 686 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 410 |
| Darparwyd yn y cyfnod | 55 |
| Gwarediadau | (14) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 451 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 235 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 162 |
| **Cyllido asedau** | |
| Mewn perchnogaeth | 235 |

84 Meddalwedd gyfrifiadurol yn bennaf.

| | £'000 |
|---|---|
| **2019-20** | |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 542 |
| Ychwanegiadau | 30 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 572 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 362 |
| Darparwyd yn y cyfnod | 48 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 410 |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 162 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 180 |
| **Cyllido asedau** | |
| Mewn perchnogaeth | 162 |

303 Caiff asedau anniriaethol eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros y byrraf o gyfnod y drwydded neu bum mlynedd. Cyfrifir amorteiddiad o'r dyddiad y mae'r ased yn cychwyn ei oes ddefnyddiol.

304 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd cyfredol ac ar eu cost wedi'i dibrisio. Cynhelir asesiad blynyddol o amhariad i gadarnhau bod hyn yn dal i fod yn wir.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith ar y gweill

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 66 | 240 |
| • Llywodraeth Leol | 514 | 666 |
| • Y GIG | 308 | 874 |
| • Y tu allan i lywodraeth | 7 | 87 |
| Gwaith ar y gweill | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 813 | 746 |
| • Llywodraeth Leol | 577 | 389 |
| • Y GIG | 90 | - |
| | 2,375 | 3,002 |

### Symiau masnach derbyniadwy

305 Caiff symiau derbyniadwy eu prisio ar sail gwerth teg wrth eu cydnabod yn wreiddiol a chânt eu mesur wedi hynny ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, heb unrhyw lwfans ar gyfer colledion credyd disgwyliedig.

306 Mae cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru fwy neu lai i gyd yn adrannau llywodraeth neu'n gyrff cyhoeddus eraill a ariennir yn bennaf gan y Senedd - ffynhonnell ariannu ddibynadwy heb unrhyw hanes o ddiffygdaliadau o ran ffioedd archwiliad. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei hamlygu i risgiau credyd sylweddol felly.

307 Nid oedd unrhyw golledion amhariad ar unrhyw symiau derbyniadwy yn 2020-21. (2019-20: dim.)

308 Nid oes unrhyw symiau perthnasol a fydd yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Gwaith ar y gweill

309 Mae gwaith ar y gweill yn ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn cyflwyno'r anfoneb. Caiff hwn ei ddatgan fel cost lawn heb ddarpariaeth ar gyfer colledion y gellir eu rhagweld a symiau a filiwyd ar gyfrif.

### Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus[85] | 504 | 579 |
| Benthyciadau i gyflogeion[86] | 4 | 1 |
| | 508 | 580 |

310 Nid oes unrhyw symiau a fydd yn ddyledus ar ôl un flwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Nodyn 8: Arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,604 | 1,776 |
| Newid net i arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod | (334) | (172) |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,270 | 1,604 |

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth) | 1,270 | 1,604 |
| | 1,270 | 1,604 |

311 Mae arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gyllid a ddelir mewn cyfrifon y mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fynediad uniongyrchol atynt.

312 Dangosir bod balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

85 Rhagdaliadau ar gyfer rhent a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

86 Cynllun beicio i'r gwaith.

### Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 9 | 192 |
| TAW | 205 | 41 |
| Costau trethiant a nawdd cymdeithasol | 345 | 358 |
| Croniad ar gyfer hawl gwyliau na chymerwyd eto[87] | 666 | 521 |
| Croniadau eraill[88] | 826 | 931 |
| | 2,051 | 2,043 |

313 Ein nod yw talu 90% o anfonebau cyflenwyr diamheuol o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn. Yn 2020-21, talwyd 76% o fewn deg diwrnod, a thalwyd 90% o fewn 30 diwrnod. Roedd y perfformiad gwaeth hwn o ganlyniad i weithio o bell a oedd yn golygu bod oedi cyn derbyn anfonebau a bostiwyd.

### Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 2,353 | 2,191 |
| | 2,353 | 2,191 |

314 Caiff incwm ffioedd a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu trwy gyfeirio at amser a godwyd ac adolygiad o waith a gwblhawyd. Caiff llawer o'n hincwm ei anfonebu ar sail rhandaliadau drwy'r flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm sydd wedi'i filio ond nid ei gydnabod eto.

87 Yn seiliedig ar benblwyddi gwyliau unigol.

88 Yn cynnwys £340,000 o ran anfonebau a dalwyr ar ôl diwedd y flwyddyn, a £319,000 o ran cyfraniadau pensiwn ar gyfer Mawrth 2021 a dalwyd ym mis Ebrill 2021.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau[89] | Ymddeoliad cynnar a diswyddo | Ailstrwythuro'r Uwch Dîm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 652 | 165 | 659 | 1,476 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 367 | - | 367 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (165) | (362) | (527) |
| Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | (6) | - | (297) | (303) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 646 | 367 | - | 1,013 |

### Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliad cynnar a diswyddo | Ailstrwythuro'r Uwch Dîm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | 367 | - | 367 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ac nid yn hwyrach na phum mlynedd | 646 | - | - | 646 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| | 646 | 367 | - | 1,013 |

315 Caiff darpariaethau eu mesur ar sail yr amcangyfrif gorau o'r symiau sy'n ofynnol i dalu rhwymedigaeth debygol ar y dyddiad adrodd.

316 Pan fydd effaith gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei seilio ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u gostwng ar y gyfradd ostyngol cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir dad-ddirwyniad y gostyngiad hwn yn y draul berthnasol.

89 Rydym yn defnyddio cyfradd ostyngol Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2020) 12 ar gyfer balansau o sero i bum mlynedd o -0.02% i gyfrifo'r balans hwn.

### Dadfeiliadau

317 Mae’r ddarpariaeth adfeiliadau yn cynrychioli amcangyfrif o’r costau y gallem fynd iddynt wrth dalu am ein heiddo ar brydles ar ddiwedd y lesoedd.

318 Mae hwn wedi’i greu o dâl dadfeiliadau blynyddol, wedi’i gyfrifo trwy ddefnyddio cyfradd dadfeiliad blynyddol ar gyfer arwynebedd llawr asedau ar brydles.

319 Caiff rhwymedigaethau dadfeiliadau yn ymwneud â chost adfer addasiadau a wnaed i adeiladau ar brydles eu cyfrifyddu trwy ddarpariaeth a roddir o’r neilltu yn y flwyddyn y nodwyd y gost.

### Ymddeoliad cynnar a diswyddiad

320 Mae’r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar a diswyddiad yn cynrychioli’r rhwymedigaeth yn y dyfodol o ran aelodau staff sydd wedi’u hymrwymo trwy gontract i adael o dan gynlluniau dileu swydd, ymddeoliad cynnar a diswyddiad. Bydd staff yn gadael Archwilio Cymru yn 2021 o dan delerau a gytunwyd yn 2020-21.

### Ailstrwythuro’r Uwch Dîm

321 Ym mis Chwefror 2020, dechreuodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfnod ymgynghori ffurfiol i ailstrwythuro’r Uwch Dîm Cyfarwyddwyr a chadarnhawyd cynigion ailstrwythuro terfynol ym mis Ebrill 2020.

322 Gan mai’r swyddi presennol Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol ac Arweinydd Sector oedd dwy o’r swyddi mewn perygl, ac yn unol â pholisïau Ailstrwythuro ac Adleoli, Ymadawiadau Cynnar a Dileu Swydd Swyddfa Archwilio Cymru, gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb mewn ymadawiad gwirfoddol gan staff yr effeithiwyd arnynt.

323 Cymeradwywyd ymadawiadau a gytunwyd ar y cyd i Anthony Barrett (Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol) a Mike Usher (Arweinydd Sector) gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol ar 19 Mawrth 2020 a darparwyd ar gyfer y costau yn 2019-20. Daeth yr ymadawiadau yn weithredol ar 30 Medi 2020.

324 Effeithiodd yr ailstrwythuro ar ddwy swydd arall hefyd – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a’r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, a gwnaed darpariaeth yn 2019-20 ar gyfer y costau diswyddo posibl pe na bai deiliaid presennol y swyddi yn llwyddo i gael eu penodi i swydd newydd.

325 Fel y digwyddodd, nid oedd angen y ddarpariaeth hon ac fe’i rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn.

## Nodyn 12: Lesoedd gweithredu

### Isafswm taliadau les cyfanredol – swyddfeydd gweithredol

| | 31 Mawrth 2021 | | 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Nifer yr eiddo** | **£'000** | **Nifer yr eiddo** |
| O fewn blwyddyn | 464 | 3 | 464 | 3 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 503 | 3 | 942 | 3 |
| Dros bum mlynedd | - | - | 26 | 1 |
| | **967** | | **1,432** | |

326 Mae gan Archwilio Cymru lesoedd ar gyfer tair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Mae'r lesoedd hyn yn destun adolygiadau rhent cyfnodol.

327 Mae dyddiadau terfyn y lesoedd ar gyfer y tri eiddo fel a ganlyn:

- Caerdydd 25 Mawrth 2023
- Penlle'r-gaer 18 Ebrill 2022
- Abergele 21 Mawrth 2026 (Cymal terfynu ym mis Medi 2023)

328 Mae TEM wedi cadarnhau yn ddiweddar na fydd Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2016, yn dod yn weithredol tan 1 Ionawr 2022 bellach. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob les â chyfnod les o fwy na blwyddyn gael ei chydnabod fel ased a rhwymedigaeth yn y datganiadau ariannol. Pe bai hyn wedi bod yn weithredol yn 2020-21, byddai wedi gofyn am addasiad ar gyfer asedau Hawl Defnyddio[90] a rhwymedigaethau les o £0.96 miliwn.

90 Ein swyddfeydd ar brydles.

**Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf**

329 Roedd ymrwymiadau cyfalaf heb eu talu o £3,520 ar 31 Mawrth 2021. (31 Mawrth 2020: £4,474).

**Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig**

330 Ni wnaed unrhyw golledion neu daliadau arbennig adroddadwy yn 2020-21. (2019-20: dim)

**Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol**

331 Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 (Datgeliadau Offerynnau Ariannol) yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth am arwyddocâd offerynnau ariannol i endid, a natur a maint risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, o safbwynt ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa yn cael ei hamlygu i lefel sylweddol o risg ariannol ac ni ddelir unrhyw ddeilliadau.

332 Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyg cyllid at ddibenion ariannu byrdymor, ni fu angen i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

333 Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben. Gan fod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

334 Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu prisio ar gost wirioneddol mewn punnoedd sterling.

**Risg hylifedd**

335 O gofio natur ein busnes a'r ffordd yr ariennir y cyrff yr ydym yn codi ffioedd arnynt, mae ein goddefiant o risg mewn meysydd rheoli ariannol yn isel.

336 Yng ngoleuni'r parodrwydd hwn i dderbyn risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei hamlygu i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg cyfraddau llog

337 Nid yw asedau a rhwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hamlygu i risg cyfraddau llog.

### Risg arian cyfred tramor

338 Mae amlygiad Swyddfa Archwilio Cymru i risg arian cyfred tramor yn ddibwys gan mai dim ond blaen-bryniannau bach iawn o arian cyfred tramor sy'n cael eu gwneud yng nghyswllt teithio tramor a chostau cysylltiedig eraill fel gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd a gynhyrchir o waith neu secondiadau tramor eu cyfnewid pan gânt eu derbyn. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### Risg credyd

339 Llywodraeth Cymru, ei chyrff cyhoeddus a noddir a chysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bennaf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n cael ei hamlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

### Gwerthoedd teg

340 Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng y gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020: dim).

### Nodyn 16: Trafodiadau partïon cysylltiedig

341 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cyflawni trafodiadau perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a chyda chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y datgelir yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

342 Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelodau o'r Bwrdd, nac unrhyw aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi cyflawni unrhyw drafodiadau perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol (**tudalen 87**).

### Nodyn 17: TAW

343 Dim ond cyfran fach o TAW ar ei gwariant gros y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei hadennill, sef y gyfran o incwm ffioedd anstatudol o'i chymharu â chyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn.

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Sail groniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodiadau a digwyddiadau eraill pan fyddant yn digwydd (ac nid wrth i arian parod, neu rywbeth sy'n cyfateb iddo, gael ei dderbyn neu ei dalu) a chânt eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu a'u hadrodd yn y datganiadau ariannol o'r cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amorteiddiad** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio ee, offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau anghyfredol (sefydlog). |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei droi yn arian parod yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| **Rhwymedigaeth gyfredol** | Rhwymedigaeth y disgwylir iddo gael ei thalu yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm sydd wedi'i filio ond nid ei gydnabod eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Amcangyfrif** | Caiff yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau ei gymeradwyo yn y cyfarfod llawn gan y Cynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn darparu adroddiad i gefnogi hyn. Cyfeirir ato hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus yng ngweithgareddau'r endid adrodd. Mae offer, cerbydau, tir ac adeiladau yn enghreifftiau. |
| **Sail busnes gweithredol** | Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, fel hawl, nad oes ganddo unrhyw sylwedd ffisegol. |
| **Prydlesu** | Caffael y defnydd o ased trwy gytundeb rhent. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw fel premiymau yswiriant neu rent ymlaen llaw. Fe'i cydnabyddir fel ased i gychwyn cyn ei drosglwyddo i draul yn y cyfnod pan fydd y budd yn cael ei fwynhau. |
| **Darpariaeth** | Rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. |

| | |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth ariannol** | Y cyflog, neu'r iawndal arall, a ddarperir am wasanaethau cyflogai. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (sydd hefyd yn cael ei alw yn ased anghyfredol) sy'n bodoli yn ffisegol. Fe'i defnyddir i'w wahaniaethu o ased sefydlog anniriaethol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Senedd i ddal symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a ddyrennir trwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Gwaith ar y gweill** | Gwaith sy'n cael ei wneud a'i gydnabod fel incwm yn y cyfrifon nad yw wedi'i  anfonebu i gleientiaid eto. |

Mae diffiniadau llawn ar gael yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM).

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

# 1 Gwaith archwilio lleol

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2020-21. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[91] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[92] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygwyr a Rheoleiddwyr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[93] |
| 22 Cyngor (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Bargeinion Dinesig | ✓ | ✓ | |
| Sawl corff llywodraeth leol llai gan gynnwys Cyd-bwyllgorau, Ardaloedd Draenio ac Awdurdodau Harbwr. | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[94] | | |

91 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

92 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

93 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

94 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o'r canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws cyrff GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol lluosog.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae'r allbynnau o lawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Yn ystod 2020-21, adolygwyd ein cynlluniau yn rheolaidd, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa COVID ehangach a'n blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein darpariaeth adnoddau ein hunain a gallu ein cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni.

| Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth yn 2020-21 | |
|---|---|
| Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol | 10 Cyfle i ailosod ac ailgychwyn system gofal wedi'i gynllunio y GIG |
| Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian | Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith |
| Cysgu allan yng Nghymru – problem i bawb; cyfrifoldeb i neb | Masnacheiddio mewn llywodraeth leol |
| Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru | Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol |
| Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Y Fenter Twyll Genedlaethol |
| Cracio'r cod: rheoli codio clinigol ledled Cymru | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru |
| Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant | Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 |
| Paratoadau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit | Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru[95] | Seibergadernid yn y sector cyhoeddus[96] |
| Caffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 | Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn Iawn? Llywodraethu yn y GIG yn Ystod Argyfwng COVID-19 |
| Cyflenwi Gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru yn fewnol | Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma |

95 Roedd nifer o allbynnau data o dan yr ymbarél eang hwn, o ystyried sefyllfa alldro 2019-20 ar gyfer cyrff unigol y GIG, cyfrifon cryno GIG Cymru 2019-20 a'r sefyllfa ariannol ganol blwyddyn 2020-21 i gyrff y GIG.

96 Gan ystyried y risg bosibl o ysgogi seiber-ymosodiadau, penderfynwyd dosbarthu'r adroddiad yn breifat i gyrff a archwilir yn hytrach na'i gyhoeddi ar ein gwefan.

## Gwaith a ddechreuwyd yn 2020-21 ac ar y gweill

- Caffael a Chyflenwi CDP ar gyfer y Pandemig COVID-19
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Gofal heb ei drefnu, offeryn data
- Gweinyddu cyllid myfyrwyr
- Rhaglen cartrefi cynnes - Arbed a Nest
- Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru
- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus
- Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol
- Gwydnwch ariannol llywodraeth leol
- Yn Ôl Eich Disgresiwn – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol
- Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru
- Diwygio’r cwricwlwm
- Rhaglen frechu yn erbyn COVID-19
- Adfywio Canol Trefi
- Taliadau uniongyrchol
- Cydweithrediad y gwasanaethau brys
- Gwasanaethau orthopedig
- Gweithlu Llywodraeth Cymru
- Cynorthwyo llesiant staff y GIG

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Senedd eraill

Parhaodd ein gwaith yn 2020-21 i chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei ystyriaeth o'r defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith 26 o gyfarfodydd y Pwyllgor (a gynhaliwyd trwy blatfform cyfathrebu fideo).

Fe wnaethom gefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor a/neu adroddiadau ar wahanol bynciau, gan fanteisio pan fo'n berthnasol ar waith archwilio blaenorol.

Mae ein gwaith hefyd wedi hysbysu gwaith pwyllgorau Senedd eraill y mae eu cylchoedd gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan ddwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn ystod 2020-21, mae hyn wedi cynnwys:

- tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar weithrediad Deddf Cymru 2014 a gweithrediad y fframwaith cyllidol.
- tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).
- tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar gapasiti'r Senedd.

## Cefnogir gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi gallu bod yn bresennol yn bersonol (fel byddai wedi bod yn wir fel rheol) y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyflym i addasu i heriau'r sefyllfa ac rydym yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath yn rheolaidd erbyn hyn gan ddefnyddio platfformau cyfathrebu fideo.

Parhawyd i ddarparu nodiadau briffio ac adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â chyngor a chefnogaeth i gryfhau effeithiolrwydd llywodraethu. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar ddarparu diweddariadau ar y newidiadau a wnaed gennym i'n rhaglenni gwaith mewn ymateb i'r sefyllfa COVID-19 ac ar godi ymwybyddiaeth o'r canlyniadau allweddol o'r gwaith hwnnw.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig cenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch y stiwardiaeth o arian ac asedau cyhoeddus.

Yn ystod 2020-21, derbyniwyd 83 eitem o ohebiaeth gennym gan sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hyn mewn ffordd deg, gymesur a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 28 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill gan ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Pan roedd angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwilio pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godwyd trwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, cymerodd y gwaith hwn ychydig yn hwy fel rheol na'r hyn y gellid ei ddisgwyl fel arfer yn 2020-21, oherwydd yr angen i weithio o bell. Pe na baem yn gallu darparu ateb terfynol i'r gohebydd/datgelydd o fewn 30 diwrnod gwaith, darparwyd ateb dros dro iddo gan gynnwys amcangyfrif o'r amserlen ar gyfer darparu ateb llawn.

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban am gyflawni busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian, a llygredd yng nghyswllt y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi:

a nifer y datgeliadau a wnaed i'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno y mae'n credu eu bod yn ddatgeliadau cymwys[97].

b nifer y datgeliadau cymwys lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu.

c crynodeb o'r mathau o gamau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi eu cymryd.

ch crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Caiff prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer bob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fwy manwl yn ein Canllawiau ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru.

Yn 2020-21, fe wnaeth 28 o unigolion ffonio neu ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru yn dynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 9 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol i gredu bod y datgeliad yn gymwys ac yn cyd-fynd â'r materion y mae wedi ei ragnodi yn eu cyswllt.

O'r 9 o ddatgeliadau yr oedd yn ymddangos eu bod yn gymwys, adolygwyd y materion a godwyd gan y tîm archwilio perthnasol mewn 7 achos, ond ni chanfuwyd eu bod yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill yn eu cylch. Yn y ddau achos arall, mae staff archwilio yn aros am adborth o'u hymholiadau cychwynnol yn penderfynu a oes materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill yn eu cylch.

Yn gyffredinol, pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn gwybodaeth sydd wedi bod yn berthnasol i'w swyddogaethau, mae hyn wedi helpu i hysbysu ei waith, ac mewn dau achos gallai'r wybodaeth hon arwain at nodi materion sy'n deilwng o archwiliad sylweddol.

97 Datgeliadau sy'n bodoli'r meini prawf a nodir yn adran 43B Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n gweithredu'r amddiffyniad rhag niwed a ddarperir gan y Ddeddf honno.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

Ebost: post@archwilio.cymru

www.archwilio.cymru